Rhaglen Gyflawn

Gwasanaethau Democrataidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 12FED HYDREF, 2023

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 5 Hydref 2023)

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Edgar Wyn Owen
Jina Gwyrfai
Paul John Rowlinson
Arwyn Herald Roberts
Elfed Wyn ap Elwyn
Huw Rowlands
Menna Baines
Meryl Roberts

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Angela Russell
Rob Triggs
Richard Glyn Roberts
Elwyn Jones

Aelodau Lleyg (6)

Sharon Warnes
H Eifion Jones
Clare Hitchcock
Elwyn Rhys Parry
Carys Edwards
Sedd Wag

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION 5 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 7fed o Fedi 2023 fel rhai cywir

5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR 16 - 19

I ystyried yr adroddiad a chynnig sylwadau

6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2022/23 20 - 45

I ystyried a chymeradwyo'r datganiad at bwrpasau ei arwyddo gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr

7. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION 46 - 56

I dderbyn yr wybodaeth ac ystyried y risgiau cyffredinol sy'n deillio o lithriadau yn yr arbedion

8. CYLLIDEB REFENIW 2023/24 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2023 57 - 80

I dderbyn y wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu'r penderfyniadau i'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau

9. RHAGLEN GYFALAF 2023/24 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2023 81 - 91

I ystyried a derbyn yr adroddiad er gwybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau i'r Cabinet

10. DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS 92 - 97

Ystyried a derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

11. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU 98 - 114

I ystyried yr adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – 'Adolygiad o Effeithiolrwydd Craffu – Cyngor Gwynedd'

12. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 115 - 128

Derbyn yr adroddiad, sylwebu ar y cynnwys a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi'u cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 7fed o Fedi 2023

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Menna Baines, Jina Gwyrfai, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Arwyn Herald Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Rob Triggs ac Elfed Wyn ap Elwyn

Aelodau Lleyg: Sharon Warnes, Hywel Eifion Jones, Clare Hitchcock, Carys Edwards a Rhys Parry

Swyddogion:
Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cynaliadwyedd a Datblygiadau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees-Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Bleddyn Rhys (Arweinydd Archwilio), Eva Chan (Arweinydd Archwilio) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)

Eitem 7:	Cyng Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor) a Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Eitem 10:	Meinir Griffiths (Swyddog Gwella Gwasanaeth)
Eitem 11 a 12:	Alan Hughes ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Jennifer Rao (Swyddog Cefnogi Busnes)
Eitem 13:	Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol)

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

   Croesawyd y Cynghorydd Edgar Owen a'r Cynghorydd Arwyn Herald Roberts i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor

   Cydymdeimlwyd a Sharon Warnes, oedd wedi colli ei gŵr yn ddiweddar a gyda Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio Mewnol) oedd wedi colli ei brawd yn ddiweddar.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Eitem 7. Deddf Llywodraeth Leol 2021- Hunanasesiad / Pwnc: Blaenoriaeth Gwella 2 'Pob Disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial' / Dalgylch Bangor / Ysgol Y Faenol
   - Cyng Menna Baines – Aelod Lleol / Llywodraethwr Ysgol Y Faenol / Aelod Cyngor Cymuned Pentir / Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Penrhosgarnedd
   - Cyng Elwyn Jones – Clerc Cyngor Cymuned Pentir

   Nid oeddynt yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu ac felly ni fu rhaid iddynt adael y cyfarfod.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 25 Mai 2023 fel rhai cywir

5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag absenoldeb hirdymor staff yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, nodwyd bod staff o fewn y gwasanaeth wedi camu i fyny a bod rheolaeth dda o gyflawni dyletswyddau statudol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â threfniadau cyfweliadau gadael, nodwyd bod y mater bellach ar raglen waith y Gwasanaeth Adnoddau Dynol.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022-23

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol gan Gadeirydd y Pwyllgor. Amlygwyd mai dyma'r tro cyntaf i'r adroddiad gael ei gyflwyno a hynny mewn ymateb i argymhelliad cryf gan CIPFA oedd yn nodi y dylai'r Pwyllgor baratoi adroddiad blynyddol sydd yn rhoi sicrwydd i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu ei fod yn cyflawni ei bwrpas ac yn gallu dangos effaith. Pwrpas yr adroddiad yw cwmpasu gwaith y Pwyllgor dros y flwyddyn 2022-23 ac amlygu sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol ynghyd ag ychwanegu gwerth i drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd.

Roedd y Cadeirydd yn croesawu sylwadau gan yr Aelodau cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn 28-09-23. Diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid am ei waith o baratoi'r adroddiad a hefyd i'r Aelod Cabinet Cyllid - Y Cynghorydd Ioan Thomas am y cydweithio arbennig sydd rhwng ef a'r Pwyllgor. Diolchwyd hefyd i Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn am fod yn rhan o drefniadau'r Pwyllgor a'i barodrwydd i gyflwyno adroddiadau am sylwadau.

Ategodd y Pennaeth Cyllid bod yr adroddiad yn ymateb i ofynion statudol Llywodraeth Cymru ac wedi ei osod allan yn unol â swyddogaethau'r Pwyllgor (rhai yn swyddogaethau mandadol ac eraill yn swyddogaethau sydd wedi eu pennu gan Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd). Tynnwyd sylw at effeithiolrwydd y Pwyllgor a'r bwriad o gyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf ynglŷn â chynnal hunan-arfarniad o waith y Pwyllgor - hyn yn cael ei weld fel ymarfer da, yn gam pwysig ymlaen ac o gymorth i'r Aelodau

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod sesiynau hyfforddiant meysydd penodol wedi bod yn fuddiol - awgrym cynnwys y manylion yma yn yr adroddiad

- Bod hyfforddiant Arlingclose yn cael ei werthfawrogi - awgrym y dylai pob Cynghorydd dderbyn yr hyfforddiant yma
- Croesawu'r adroddiad gan ychwanegu diolchiadau i'r Cadeirydd am ei gwaith a'i harweiniad dros y flwyddyn

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ystyr y datganiad, 'na fydd yr arbedion yn cael effaith anwastad ar draws y Sir' (para 18), eglurwyd bod y sylw yn un a wnaed gan y Pwyllgor wrth drafod effaith yr arbedion. Cafodd y sylw ei ychwanegu i'r adroddiad terfynol a gyflwynwyd i'r Cabinet ac i'r Cyngor

PENDERFYNWYD:

Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol

Nodyn: Cynnwys manylion cyrsiau hyfforddiant perthnasol mae'r Aelodau wedi mynychu

7. DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2021 – HUNANASESIAD

Yn unol â gofyn statudol newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cyflwynwyd adroddiad gan y Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn adrodd ar Berfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad y Cyngor gan edrych yn ôl ar 2022/23. Awgrymodd bod y gofyn statudol yn ychwanegiad i'r diwydiant 'geiriau' ac yn cwestiynu os hynny yn ychwanegu gwerth. Er hynny rhaid derbyn bod pwysigrwydd mewn cynnal hunanasesiad parhaus, yr angen am drefn gadarn a chyfle i'r Weithrediaeth gynnal sgwrs ynghylch bodlonrwydd y gofynion yn ystod y flwyddyn ariannol.

Diolchwyd i'r tîm o brif swyddogion oedd wedi paratoi'r Hunanasesiad ac i'r Pwyllgor am eu gwaith o adolygu'r adroddiad gan gynnig sylwadau / argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd.

Amlygwyd yr her o egluro 'gwaith y Cyngor'; yr her o osod cyllidebau a'r angen i'r cyhoedd ddeall hyn. Nodwyd hefyd bod nifer o'r gwelliannau oedd wedi eu hadnabod yn hunanasesiad 21/22 yn parhau yn yr adroddiad oherwydd bod nifer o'r gwelliannau yn faterion hirdymor ac mai ym mis Rhagfyr y cyhoeddwyd yr hunanasesiad ar gyfer 2021/22. Bydd trefniadau i adrodd ar gynnydd y gwelliannau yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyflwyno.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod y gair 'addas' yn ddadleuol yng nghyd-destun '…cael hi'n anodd denu aelodau lleyg ac aelodau etholedig addas i fod ar y pwyllgor …'
- Awgrym i gynnwys eglurhad byr o'r dystiolaeth cyn y casgliadau - annhebygol fydd rhai yn agor pob dolen yn yr adroddiad a/neu sicrhau bod y casgliad yn gryno ac effeithiol fyddai'n crynhoi'r dystiolaeth - haws i'r cyhoedd ei ddeall. Roedd derbyniad nad oedd hyn yn ymarferol ar gyfer y fersiwn hon o'r adroddiad ond cytunwyd i ystyried hyn ar gyfer y fersiwn nesaf.
- Bod angen sicrhau bod y dogfennau / ffynonellau tystiolaeth yn gyfredol (nifer o'r dolennau yn rai ar gyfer adroddiadau 2021/22 - hyn yn wendid). Nodwyd fod y ddogfen hon yn cael ei pharatoi cyn i nifer o ddogfennau/ffynonellau tystiolaeth eraill ar gyfer y flwyddyn dan sylw gael eu mabwysiadu. O ganlyniad nid oedd modd cynnwys dolennau er fod cydweithio rhwng yr awduron pan yn llunio'r adroddiad.
- Bod trigolion y Sir gyda dealltwriaeth o feysydd gwaith y Cyngor, ond efallai dim o'r cymhlethdodau – cyfrifoldeb yma i egluro gwaith y Cyngor i drigolion

- Bod angen codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu gydag etholwyr newydd – plant ysgol
- Cais i'r gweithgor o swyddogion sydd yn datblygu fframwaith effeithlon ar gyfer mesur gwerth am arian o fewn y drefn herio perfformiad i gyflwyno eu canfyddiadau i'r Pwyllgor
- Awgrymwyd y dylai aelodau'r Pwyllgor (ac yn benodol aelodau lleyg) dderbyn hyfforddiant am egwyddorion Ffordd Gwynedd
- Bod angen cysondeb o fewn arddull ymateb yr adrannau – awyddus gwella hyn i'r dyfodol
- Angen amlygu balchder yn yr hyn sydd yn cael ei wneud yn dda

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd sylwadau'r Pwyllgor ar faterion megis Cartrefi Gofal, Digartrefedd ayyb wedi eu cynnwys yn yr adroddiad fyddai yn pontio gwaith y Cyngor gyda gwaith y Pwyllgor, nodwyd mai cyfrifoldeb y Penaethiaid oedd cynnwys yr ymateb. Y sylw yn rhy hwyr ar gyfer ei ychwanegu eleni, ond yn sicr yn sylw ar gyfer adroddiadau'r dyfodol.

Sylwadau Adroddiadau Perfformiad (dim yn rhan o gyfrifoldeb swyddogol y Pwyllgor)

- Creu Swyddi Gwerth Uchel (cyflog £31,300 neu fyw) - y cyflog i'w weld yn isel o ystyried costau prynu tŷ yn yr ardal. Angen gwell cyflogau i gadw ieuenctid yn lleol.
- Angen hyrwyddo a chreu proffil cefndirol o brentisiaid y Sir - sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg
- Pryder am faterion cyfreithiol ynglŷn â throsglwyddiadau tir a phrydles Ysgol y Faenol - cais i Archwilio Mewnol am wybodaeth bellach / adolygiad o'r sefyllfa.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad

8. DATGANIAD O GYFRIFON 2022/23 (AMODOL AR ARCHWILIAD)

Cymerodd yr Aelod Cabinet Cyllid y cyfle i ddiolch i staff yr Adran Cyllid am eu hymroddiad i sicrhau bod Datganiad Cyfrifon (drafft) y Cyngor wedi eu cyflwyno i Archwilio Cymru ers diwedd Mehefin a hynny mewn cyfnod byr iawn. Rhoddodd ddiweddariad i'r aelodau ar eu cyfrifoldebau a diolchwyd iddynt am y cydweithio da.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau mai arferol fyddai cyflwyno'r cyfrifon cyn yr haf, ond gan nad oedd cyfarfod o'r Pwyllgor ym Mehefin, dyma'r cyfle cyntaf i'w cyflwyno. Ategwyd bod estyniad eto eleni yn yr amserlen statudol ar gyfer archwilio'r cyfrifon, gyda'r bwriad o gwblhau'r archwiliad a chymeradwyo'r cyfrifon gan y Pwyllgor yma yn Rhagfyr.

Atgoffwyd yr Aelodau bod sefyllfa ariannol diwedd flwyddyn ar gyfer 2022/23, wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y 25ain o Fai ar ffurf alldro syml, ond bod y Datganiad o'r Cyfrifon, sydd i bwrpas allanol a llywodraethu, yn gorfod cael ei gwblhau ar ffurf safonol CIPFA. Ymddengys bellach yn ddogfen hirfaith a thechnegol gymhleth.

Adroddwyd ar gynnwys yr adroddiad gan egluro bod chwe set o gyfrifon ar gyfer 2022/23, yn cael eu cwblhau

1. Cyngor Gwynedd
2. Cronfa Bensiwn Gwynedd
3. GwE (cydbwyllgor sylweddol ei faint ac felly Datganiadau Llawn wedi eu paratoi)
4. Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (cydbwyllgor o sylweddol ei faint ac felly Datganiadau Llawn wedi eu paratoi)
5. Harbyrau Gwynedd a
6. Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn (cyflwynwyd i gyfarfod 25 Mai 2023 y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio).

Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Naratif oedd yn rhoi gwybodaeth am y Cyfrifon ac am weledigaeth a blaenoriaethau Gwynedd, y Strategaeth Ariannol a'r mesuryddion perfformiad ariannol. Arweiniwyd yr Aelodau drwy'r adroddiad gan fanylu ar rai o'r elfennau:

- Crynodeb o wariant cyfalaf. Bu gwariant o £37 miliwn yn ystod y flwyddyn i gymharu gyda £37 miliwn hefyd yn y flwyddyn flaenorol.
- Bod y prif ddatganiadau ariannol yn cynnwys Datganiad Incwm a Gwariant, Mantolen, Llif arian ayyb
- Datganiad Symudiad mewn Reserfau sydd yn ddatganiad pwysig ac yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor. Amlygwyd bod balansau cyffredinol y Cyngor yn £7.9 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2023, sef yr un lefel â Mawrth 2022. Bod Reserfau yn amlygu lleihad yn y cronfeydd £106 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2022 o gymharu â £104 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2023.
- Balansau Ysgolion lle gwelir lleihad £4.8m ym malansau ysgolion - £17 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2022 i gymharu â £12 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2023.
- Bod dipyn o symudiad wedi bod yn sefyllfa'r fantolen erbyn Mawrth 2023 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd Ymrwymiad Pensiwn. Eglurwyd nad oedd y mater yn unigryw i Wynedd ond yn hytrach yn ddarlun cyffredinol oherwydd amodau'r farchnad. Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor ymrwymiad pensiwn o £242 miliwn, ond ar 31 Mawrth 2023, roedd gwerth yr asedau yn fwy na gwerth yr ymrwymiadau gyda sefyllfa ased net o £136 miliwn. Y rheswm am hyn yw bod prisiad yr actiwari yn defnyddio bondiau corfforaethol, a gan fod cynnyrch rhain wedi bod yn uchel, mae wedi arwain at gyfraddau disgownt cyfrifyddu uchel sy'n rhoi gwerth sylweddol is ar yr ymrwymiadau pensiwn. Ategwyd nad yw'r safon cyfrifo pensiynau yn caniatáu dangos ased ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, felly, addaswyd gwerth yr ased ar y fantolen i £0. Nodwyd bod yr Adran Cyllid yn disgwyl cyfarwyddiadau pellach gan Archwilio Cymru a CIPFA ar y mater, ac os bydd angen unrhyw newid i'r driniaeth yn dilyn derbyn cyfarwyddiadau, bydd yr addasiad yn cael ei weithredu erbyn y Datganiad Cyfrifon terfynol.

Cyfeiriwyd hefyd at Nodyn 10 - Gwybodaeth fanwl am gronfeydd sydd yn cynnwys Reserfau wrth gefn a glustnodwyd: Balansau Ysgolion, Reserfau a Glustnodwyd yn cynnwys dadansoddiad o'r £104 miliwn o gronfeydd wrth gefn (gan gynnwys y prif rai sef reserfau cyfalaf, cronfa cynllun y Cyngor, cronfa cefnogi'r strategaeth ariannol a chronfa Premiwm Treth y Cyngor.

Cyfeiriwyd at Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar sydd yn cyflwyno dadansoddiad fesul categori tir ac adeiladau, cerbydau, offer a chyfarpar ayyb. Ymrwymiadau Cyfalaf sydd yn cynnwys gwaith cyfalaf Ysgol Treferthyr, Cricieth – y symiau a'r taliadau hyd yma.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Adran am y gwaith manwl, gan wahodd cwestiynau a sylwadau gan yr aelodau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Yn llongyfarch y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol ar gyflwyno'r adroddiad mewn modd diddorol a dealladwy. Yr adroddiad yn gynhwysfawr
- Yn llongyfarch yr Adran ar gwblhau'r gwaith o fewn amserlen dynn
- Bod cadw arian wrth gefn yn angenrheidiol ar gyfer sefyllfaoedd annisgwyl.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r Ymrwymiad Pensiwn ac os y byddai'r mater yn creu ansefydlogrwydd, nodwyd mai amodau'r farchnad a chwyddiant oedd yn gyfrifol am y sefyllfa ac mai mater technegol ydoedd mewn gwirionedd. Mae'r yn sefyllfa anarferol yn ymwneud â chofnodi technegol yn hytrach na mater ariannol.

Yng nghyd-destun cronfeydd wrth gefn a'r ffaith eu bod wedi eu clustnodi ar gyfer meysydd penodol, gofynnwyd beth fuasai yn digwydd petai rywbeth annisgwyl yn codi e.e., cinio ysgol am ddim. Nodwyd bod cronfeydd penodol ar gyfer gweithredu

blaenoriaethau'r Cyngor a bidiau un tro, ac o'r gronfa yma y byddai modd cyllido rhywbeth annisgwyl.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag adolygu cronfeydd reserfau a glustnodwyd o ystyried nad oedd gwariant ar rai o'r cronfeydd hynny eleni a'r tebygolrwydd o'r angen am arian ychwanegol ar gyfer y gyllideb flwyddyn nesaf, nodwyd bod y cronfeydd hyn yn cael eu hadolygu yn flynyddol gyda'r Prif Weithredwr. Ategwyd mai'r bwriad yw adfer rhai cronfeydd a chynhaeafu eraill gan sicrhau bod arian ar gael ar gyfer y dyfodol ac i gyllido sefyllfaoedd annisgwyl (Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol yn enghraifft o hyn). Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â pham na ellid trosglwyddo Cronfa Trefniadau Adfer yn Sgil Covid 19 i'r reserfau cyffredinol, nodwyd bod yr arian yma yn ganlyniad o dderbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig a bod y Gronfa wedi ei chreu wrth gau cyfrifon y flwyddyn berthnasol.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2022/23.

9. RHEOLAETH TRYSORLYS

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2022/23, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn 3ydd Mawrth 2022. Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn flwyddyn brysur a llewyrchus iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor wrth i'r gweithgaredd aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw.

Adroddwyd bod £1.8m o log wedi ei dderbyn ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £0.4m a oedd yn y gyllideb. Nodwyd bod yr incwm llog yn sylweddol uwch na'r gyllideb oherwydd gosodwyd y gyllideb mewn cyfnod pan roedd y gyfradd sylfaenol yn 0.75%; erbyn Mawrth 2023 roedd yn 4.25%.

Ar y 31 Mawrth 2023 roedd y Cyngor mewn sefyllfa gref iawn gyda buddsoddiadau net a hynny oherwydd lefel uchel o fuddsoddiadau a chyfalaf gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys £57 miliwn o arian y Bwrdd Uchelgais a £18 miliwn y Cronfa Bensiwn.

Adroddwyd, yng nghyd-destun buddsoddiadau, bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Cronfeydd Marchnad Arian, Cronfeydd wedi'i pwlio, Awdurdodau Lleol a Swyddfa Rheoli Dyledion. Nodwyd bod y cronfeydd wedi'i pwlio yn fuddsoddiadau tymor canolig/ tymor hir sydd yn dod a lefel incwm da iawn, a gyda lefelau arian y Cyngor yn iach, yr Uned Buddsoddi yn edrych ar fuddsoddiad pellach i'r cronfeydd yma yn y dyfodol agos.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfiad a dangosyddion adroddwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA a strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor - hynny yn newyddion da, ac yn dangos bod rheolaeth gadarn dros yr arian. Cyfeiriwyd at y dangosyddion lle amlygwyd bod pob dangosydd a osodwyd yn cydymffurfio â'r disgwyl heblaw un (Datguddiad Cyfraddau llog). Eglurwyd bod y dangosydd yma wedi ei osod yn amodau llog isel Mawrth 2022 ac felly'n rhesymol bod y symiau mor wahanol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r angen i ail osod y dangosydd nad oedd yn cydymffurfio, nodwyd mai Arlingclose sydd yn awgrymu'r dangosyddion y dylid eu defnyddio. Derbyniwyd y sylw fel un teg a gan nad yw'r amod llog o 1% bellach yn

berthnasol i'r amgylchiadau presennol, byddai'n amlygu'r sylw i Arlingclose yn eu cyfarfod nesaf.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â benthyca i Gynghorau eraill, nodwyd bod y Cyngor yn parhau i wneud hyn a hynny i Gynghorau sydd yn ddiogel. Nodwyd bod gan Arlingclose restr o'r Cynghorau hynny na ddylid buddsoddi ynddynt. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â hysbysiad adran 114 a'r tebygolrwydd y byddai hawl gan y cynghorau a fenthycwyd iddynt beidio gorfod talu'r benthyciad yn ôl, nodwyd bod Arlingclose wedi cadarnhau y bydd rhaid i'r Cynghorau hynny dalu'r benthyciad yn ôl sydd yn wahanol i drefniadau buddsoddi gyda chwmni preifat. Ategwyd mai'r sefyllfa waethaf oedd efallai na fyddai'r llog yn cael ei ad-dalu, ond byddai hynny gysystyr ag ail negodi telerau'r benthyciad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â benthyca i Cynghorau lleol ac os oes rhai Cynghorau yn edrych yn fwy simsan na'i gilydd (o ystyried cyhoeddiad gan Cyngor Birmingham yn ddiweddar yn nodi na all fantoli ei gyllideb heb gymorth), nodwyd bod y rhestr bresennol o Gynghorau na ddylid buddsoddi ynddynt yn gyfredol a'r sicrwydd gan Arlingclose yn cael ei wirio yn foreol.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2022-23

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn cyflwyno sylwadau Ombwdsman Cymru ar drefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau yn ystod 2022/23 gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Atgoffwyd yr Aelodau bod gofyn statudol ar y Pwyllgor i sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Ategwyd, ni fu unrhyw newid yn y drefn na'r Polisi Pryderon a Chwynion yn ystod 2022/2023 ac felly bod cynnwys llythyr yr Ombwdsman yn seiliedig ar y Polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2021.

Adroddwyd bod y Llythyr Blynyddol wedi dod i law 17 Awst 2023. Cyfeiriwyd at rai sylwadau ac argymhellion a wnaethpwyd gan yr Ombwdsmon oedd yn cynnwys, "Byddwn yn annog Cyngor Gwynedd, ac yn benodol, eich Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i ddefnyddio'r data hwn i ddeall eich perfformiad o ran cwynion yn well ac ystyried pa mor dda y mae dulliau ymdrin â chwynion yn dda wedi'i wreiddio ledled yr Awdurdod".

Cyfeiriwyd at yr hyfforddiant perthnasol yr oedd Aelodau'r Pwyllgor wedi ei dderbyn (Trosolwg ar ymarfer da o Wella Gwasanaeth o Gwynion - Tachwedd 2022) ynghyd a sylw bod llythyr diwygiedig wedi ei dderbyn yn cywiro gwall i ystadegau Cwynion y Cod ymddygiad.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw bod y nifer cwynion yn lleihau ac os mai'r rheswm dros hyn oedd cofnodi cywir neu beidio, nodwyd bod y cofnod yn realistig a bod pob cwyn sy'n cael ei dderbyn yn cael ei gofnodi (cyn cyfeirio ymlaen at y gwasanaeth perthnasol). Ategwyd mai cyfrifoldeb y Cabinet oedd cynnwys y cwynion ac mai cyfrifoldeb y Pwyllgor oedd sicrhau trefniadau'r Cyngor mewn ymateb i gwynion.

Mewn ymateb i sylw bod 17% o gwynion wedi eu derbyn am' Ymdrin â Chwynion', nodwyd bod hyn ynteu oherwydd bod Swyddfa'r Ombwdsman yn ymdrin â chwynion yn wahanol i'r Cyngor neu fod y gwasanaeth perthnasol heb ymateb / deall y drefn yn llawn. Ategwyd bod hyfforddiant yn cael ei annog a gwersi yn cael eu dysgu. Mewn sylw ategol bod rhai

gwasanaethau yn waeth na'i gilydd, nodwyd bod pob gwasanaeth yn gwella a bod rhai yn cael eu targedu i dderbyn hyfforddiant pellach.

Mewn ymateb i sylw am adroddiad pellach / manylach, nodwyd nad oedd bwriad cyflwyno mwy o wybodaeth gan mai sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion o fewn y Cyngor oedd cyfrifoldeb y Pwyllgor. Mewn ymateb i sylw ategol ynglŷn â'r hyn y mae gwasanaethau angen ei wneud i wella ymateb, nodwyd eleni, yn unol â'r gofyn statudol, mai'r Cabinet oedd yn gwirio rôl y gwasanaethau, ac mai gwirio cynnwys y llythyr oedd cyfrifoldeb y Pwyllgor. Mewn ymateb nododd y Cadeirydd mai darlun o'r hyn sydd yn cael ei gyflwyno i'r Ombwdsman oedd gerbron y Pwyllgor ac nid gwybodaeth am y drefn.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad

11. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU

Croesawyd Alan Hughes ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Jennifer Rao (Swyddog Cefnogi Busnes) i'r cyfarfod i gyflwyno eu sylwadau / ymatebion.

a) Diweddariad Chwarter 1

Cyflwynwyd diweddariad chwarterol (hyd at 30 Mehefin 2023) o raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru. Trafodwyd y gwaith archwilio ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad lleol gan amlygu y byddai'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023.

Tynnodd y Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru, sylw'r Pwyllgor i un camgymeriad yn yr adroddiad a gyflwynwyd. Lle roedd yn adroddiad yn nodi "Ni dderbyniwyd Ffurflen Flynyddol y Cydbwyllgor Polisi Cynllunio eto", mewn gwirionnedd roedd Ffurflen Flynyddol y Cydbwyllgor Polisi Cynllunio wedi ei dderbyn ganddynt ar 13 Mehefin 2023.

Cyfeiriwyd at yr Adolygiad Themâu Digidol gan amlygu bod drafft cyntaf o'r adolygiad wedi ei rannu gyda'r Cyngor. Ategwyd bod Adolygiad Effeithlonrwydd Craffu wedi ei gwblhau a bod trafodaethau wedi eu cynnal 06-09-23 i gytuno ar yr adroddiad terfynol. Y bwriad yw cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. Cyfeiriwyd at astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu Cynllunio ynghyd ag adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ers Mehefin 2022 oedd yn cynnwys 'Cyfle wedi'i golli - Mentrau Cymdeithasol'

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw nad oedd cyfeiriad yn y diweddariad at yr argyfwng concrid diweddar (diogelwch adeiladau cyhoeddus sydd wedi eu hadeiladu gan ddefnyddio'r concrid aeredig RACC), nodwyd y byddai cynlluniau archwilio yn addasu fel bydd yr angen yn codi a gyda'r mater yn un cyfredol, byddai'n debygol o ddylanwadu cynlluniau i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad

b) Diweddariad Adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – 'Cyfleoedd wedi'i Colli – Mentrau Cymdeithasol'

Adroddwyd bod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth honno bod disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Yn ogystal mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir yn yr adroddiadau hynny.

Cyflwynwyd adroddiad 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol ynghyd ag ymateb y rheolwyr oedd yn amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad.

Eglurwyd bod y gwaith o ddatblygu strategaeth a gweledigaeth wedi dechrau drwy gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb ar y cyd gyda chynrychiolwyr o Grŵp Cyswllt Trydydd Sector Gwynedd. Cynhaliwyd gweithdy lle rhoddwyd cyfle i'r mynychwyr (Trydydd Sector, Swyddogion a Chynghorwyr) gyfrannu at ddatblygu a chyd-gynhyrchu blaenoriaethau gweithredu. Y cam nesaf fydd dadansoddi'r sylwadau a gasglwyd, cynnal cyfarfod arall ym mis Hydref i ddatblygu'r weledigaeth yn llawn a rhannu diweddariad pellach i'r Pwyllgor ymhen 6 mis.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth yw menter gymdeithasol, nodwyd bod y cyfarfod diweddar wedi bod gyda sefydliadau trydydd sector sydd yn rhan o Grŵp Cyswllt Trydydd Sector Gwynedd sy'n cynrychioli pobl o fewn cymdeithas - enghreifftiau yng Ngwynedd fyddai Mantell Gwynedd, GISDA, Meter Fachwen. Mewn sylw ategol, awgrymwyd rhestru enghreifftiau o fentrau cymdeithasol yn y ddogfen ymateb y rheolwyr er mwyn deall y cyd-destun yn ehangach. Ategodd Swyddog Archwilio Cymru mai anodd yw gosod diffiniad o'r term, ond mai corff ydyw ar gyfer sicrhau gwerth cymdeithasol ac nid er mwyn gwneud elw. Cyfeiriwyd at 1.24 o'r adroddiad lle nodi'r bod y gwefannau gorau gan awdurdodau lleol yn cynnwys 'diffiniad clir sy'n nodi beth yw Menter Cymdeithasol'

Mewn ymateb i sylw bod yr adroddiad yn un cyffredinol ac nad oedd awgrym bod cyfle wedi ei golli, nodwyd bod gwrthdaro rhwng gwaith lleol a gwaith cenedlaethol, ac er bod yr adroddiad yn ymddangos yn generig, bod yr argymhellion yn arwain at gyfleoedd yn lleol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod gwaith mentrau cymdeithasol yn glodwiw iawn, fodd bynnag wrth i Awdurdodau Lleol, waredu asedau a cholli rheolaeth, gall hyn arwain at fentrau yn datgymalu gwaith Awdurdod Lleol
- Bod enghreifftiau da o fentrau cymdeithasol yn y Sir ac os maent yn cael eu rheoli yn gywir, y budd cymdeithasol yn un cadarnhaol

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad

Nodyn: 11b - awgrym i gynnwys enwau / enghreifftiau o Fentrau Cymdeithasol Gwynedd yn yr ymateb er mwyn deall y cyd-destun yn ehangach

12. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr eitem yn un i'w ystyried fel rôl llywodraethu ac nid fel rôl craffu gyda chais i'r Pwyllgor fod yn fodlon bod trefniadau priodol yn ei lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o archwiliadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

Nodwyd bod y gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o gynigion gwella yn waith parhaus a bod y Grŵp Llywodraethu sydd yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn rhoi sylw i'r cynigion gwella ac i'r cynnydd o'r argymhellion. Ategwyd, i'r cynigion hynny sydd yn derbyn casgliad yn nodi 'wedi ei gwblhau' bod y categori yma bellach, yn dilyn adborth gan y Pwyllgor, wedi ei rhannu yn ddau er mwyn adlewyrchu os yw'r argymhellion wedi ei gwireddu neu os ydynt yn waith parhaus ar gyfer yr adran.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol:

- Bod nifer o adroddiadau yn debygol o ddychwelyd

Mewn ymateb i sylw bod llithriad i Adroddiad System Gwybodaeth Adnoddau Dynol, nodwyd, er bod llithriad amlwg, bod yr adroddiad yn nodi y rhagwelir y bydd y rhaglen waith o ymateb i'r argymhellion wedi ei gyflawni erbyn diwedd Mawrth 2024. Ategwyd, ar lefel lleol bod swyddog yn cael ei benodi i edrych ar y gweithredu a bod dogfen 'ymateb rheolwyr' yn cael ei baratoi i sicrhau perchnogaeth y Cyngor i'r gwaith; yn genedlaethol, bydd swyddog yn cael ei adnabod os yn berthnasol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad

13. ADOLYGIAD Y CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro yn amlygu elfennau o'r Cyfansoddiad oedd angen eu diweddaru ynteu mewn ymateb i ofynion Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiad (Cymru) 2021, newidiadau cyfreithiol neu drefniadau oedd yn cyfiawnhau newid. Adroddwyd y gwelwyd cyfnod o sawl newid i'r Cyfansoddiad wrth i'r Ddeddf ddod yn weithredol a bod newidiadau pellach yn fater o sicrhau trefn.

Nodwyd bod y materion yn destun cymeradwyaeth y Cyngor Llawn fodd bynnag gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a chefnogi'r newidiadau arfaethedig gan argymell i'r Cyngor Llawn eu bod yn eu mabwysiadu.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Er yn ymestyn amser cyflwyno rhybudd ar gyfer cwestiwn i'r Cyngor Llawn i 3 diwrnod gwaith fel bod modd i swyddogion ymateb yn fanylach ar faterion all fod yn dechnegol, nid oedd hyn yn cyfarch amser ar gyfer paratoi ar gyfer cwestiwn atodol.
- Bod cynyddu'r rhiniog o osod sêl y Cyngor ar gontractau o £50,000 i £100,000 yn gam doeth.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:15

_____

CADEIRYDD

Eitem 5

PWYLLGOR	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD	**12 HYDREF 2023**
TEITL	**GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR**
AWDUR	**DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID**
GWEITHREDIAD	**ER GWYBODAETH**

---

1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd I'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r weithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYLDU'R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

Cyfarfod 17 Tachwedd 2022

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2021/22	• Derbyn bod trefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaeth yn effeithiol iawn • Bod yr adroddiad, i'r dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn y Cabinet Awgrymiadau: • Cynnwys sylw ar yr effaith gadarnhaol mae cwynion yn cael ar berfformiad y Cyngor • Cynnwys crynodeb o'r prif feysydd / meysydd datblygol sydd yn derbyn cwynion • Categoreiddio neu osod cyd-destun ehangach ar gyfer yr adrannau hynny sydd yn derbyn y mwyafrif o gwynion, fel bod modd deall yr amgylchiadau • Y Cadeirydd i ail ymweld â chyfrifoldebau'r Pwyllgor - a oes angen rhoi trosolwg ar 'holl adrannau'r Cyngor' (gan gynnwys Gwasanaethau Gofal ac Addysg sydd â threfn statudol eu hunain)?	**Yr adroddiad diweddaraf am y flwyddyn 2022/23 wedi ei gyflwyno i Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 7 Medi 2023 ac i'r Cabinet 19 Medi 2023.**

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
DIWEDDARIAD AR ADRODDIADAU SYDD WEDI EU CYHOEDDI YN DDIWEDDAR GAN ARCHWILIO CYMRU	• Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion 'Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 • Cyflwyno adroddiad ymhen 6 mis i ddiweddaru'r Pwyllgor ar drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd fel bod modd symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff • Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion ''Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio"	**O safbwynt trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, mae'r cynllun yn symud yn ei flaen ar lefel rhanbarthol. Dyddiad targed trosglwyddo yw 1 Ebrill 2024.**
CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL	• Derbyn yr adroddiad • Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol • Cais am ddiweddariad o Archwiliad Diogelwch Tacsis (lefel sicrwydd cyfyngedig) • Bod angen cyfeirio'r mater o ddiffyg gweithredu gweithdrefnau rheolaethol mewn Cartrefi Gofal i'r Pwyllgor Craffu Gofal	**Diogelwch Tacsis yn destun archwiliad dilynol eleni. Gwaith dilyniant wedi ei wneud yn ystod mis Medi a'r adroddiad yn derfynol ar 4ydd o Hydref 2023.** **Eitem Cartrefi Gofal wedi ei ystyried yng Ngweithdy Blynyddol Pwyllgor Craffu Gofal ar 09/05/23. Blaenoriaethwyd yr eitem gan ei raglennu ar gyfer cyfarfod 23/11/23 ar raglen waith drafft 2023/24. Gwaith dilyniant yn parhau wrth i 3 Gartref arall dderbyn archwiliad llawn.**

Cyfarfod 25 Mai 2023

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL	• Derbyn yr adroddiad. • Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol. • Cyfeirio 3 maes cyfyngedig i'r Gweithgor Gwella. 1. Cynllunio – Trefniadau Cyfarthrebu 2. Mesurau Diogel Amddiffyn Rhyddid 3. Manddaliadau	**Oherwydd absenoldeb salwch hirdymor yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, nid yw'r Gweithgor Gwella Rheolaethau wedi cyfarfod eto.**
ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL	• Derbyn yr adroddiad yn unol a gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2022/23. • Ail-sefydlu Gweithgor Gwella Rheolaethau.	**Gweler uchod parthed y Gweithgor Gwella Rheolaethau.**

Cyfarfod 7fed o Fedi 2023

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022-23	• Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol. Nodyn: Cynnwys manylion cyrsiau hyfforddiant perthnasol mae'r Aelodau wedi fynychu.	**Dim gweithrediad pellach.**
DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2021 – HUNANASESIAD	• Derbyn yr adroddiad.	**Dim gweithrediad pellach.**
DATGANIAD O GYFRIFON 2022-23 (AMODOL AR ARCHWILIAD)	• Derbyn y Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2022-23.	**Dim gweithrediad pellach.**
RHEOLAETH TRYSORLYS 2022-23	• Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.	**Dim gweithrediad pellach.**
ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2022-23	• Derbyn yr adroddiad.	**Dim gweithrediad pellach.**

Eitem	Penderfyniad	Diweddariad
ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU	1. Rhaglen waith Chwarter 1 Archwilio Cymru 2. Diweddariad ar adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – Cyfle wedi'i Golli – Mentrau Cymdeithasol • Derbyn yr adroddiadau. Adroddiad 2: Awgrym i gynnwys enwau / enghreifftiau o Fentrau Cymdeithasol Gwynedd yn yr ymateb er mwyn deall y cyd-destun yn ehangach.	**Dim gweithrediad pellach.**
ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL	Derbyn yr adroddiad.	**Dim gweithrediad pellach.**
ADOLYGIAD Y CYFANSODDIAD	Cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad gan argymell i'r Cyngor Llawn eu bod yn cael eu mabwysiadu.	**Dim gweithrediad pellach.**

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.

PWYLLGOR	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD	**12 HYDREF 2023**
TEITL	**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2022/23**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**CYFLWYNO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI'R DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2022/23 I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH**
AWDUR	**DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID**
GWEITHREDIAD	**CYMERADWYO'R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR**

---

1. CEFNDIR

1.1 Mae gofyn statudol am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol fel canlyniad i gynnwys:

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n datgan:

  Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol swyddogaethau'r corff hwnnw ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

  Rhaid i'r corff perthnasol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei systemau rheoli mewnol. Rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu hystyried gan aelodau'r corff yn cyfarfod yn ei gyfanrwydd neu gan bwyllgor.

  Ar ôl yr adolygiad, rhaid i'r corff neu'r pwyllgor gymeradwyo datganiad ar reoli mewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y datganiad yn mynd gydag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n ddyletswydd arno i'w baratoi.

- Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "SORP")
- Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*.

2. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

2.1 Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth allweddol i herio dulliau paratoi a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau:

"Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod."

2.2 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn crynhoi canlyniad yr hunanasesiad llywodraethu, sydd wedi cael ei ddiweddaru gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ystod y flwyddyn, mewn datganiad sydd yn dweud wrth Bobl Gwynedd beth yw ein fframwaith lywodraethu, a pa mor dda mae'n gweithio. Aelodau'r Grŵp yw y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

2.3 Mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y naratif sy'n cyfiawnhau'r sgoriau yn adlewyrchiad teg o'r Cyngor cyn belled â'i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

3. ADNABOD RISGIAU LLYWODRAETHU

3.1 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA/Solace a gyhoeddwyd yn 2016.

3.2 Mae'r Fframwaith yma'n adnabod 7 Egwyddor Craidd ar gyfer Llywodraethu Da:

A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a parchu rheol y gyfraith.
Mae sefydliadau Llywodraeth Leol yn atebol nid yn unig am faint maent yn ei wario, ond hefyd am sut maent yn defnyddio'r adnoddau sydd o dan eu stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau cadarnhaol a negyddol, ac am y deilliannau y maent wedi eu cyflawni. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at y gofynion deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth. Mae'n hanfodol y gallant, yn gyffredinol, arddangos priodoldeb eu gweithredoedd ar draws yr holl weithgareddau a bod mecanweithiau ar waith i annog a gorfodi cydymffurfiaeth â gwerthoedd moesegol ac i barchu rheol y gyfraith.

B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid
Mae Llywodraeth Leol yn rhedeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio cyfryngau cyfathrebu ac ymgynghori clir, ac a ymddiriedir ynddynt, i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

C. Diffinio deilliannau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau Llywodraeth Leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio deilliannau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hybu pwrpas y sefydliad, cyfrannu at y deilliannau a'r buddion a fwriadwyd, ac aros o fewn y terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwyso galwadau sy'n cystadlu â'u gilydd wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

D. Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir
Mae Llywodraeth Leol yn cyflawni ei ddeilliannau bwriadedig drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoliadol ac ymarferol (camau gweithredu). Mae penderfynu ar y cymysgedd gywir o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hanfodol bwysig sydd rhaid i Lywodraeth Leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y deilliannau a fwriedir. Mae angen dulliau gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r deilliannau ddiffiniedig mewn ffordd sy'n darparu'r cyfaddawd gorau rhwng y mathau gwahanol o fewnbynnau adnoddau tra'n parhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu'r penderfyniadau a wneir yn aml er mwyn sicrhau fod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni.

E. Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo
Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth priodol ar Lywodraeth Leol, yn ogystal â pobl gyda'r sgiliau, cymwysterau addas a'r meddylfryd iawn i weithredu'n effeithiol ac effeithlon ac i gyflawni deilliannau bwriedig o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun ac i wneud yn siŵr bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y capasiti gweithredol ar gyfer y sefydliad gyfan. Gan y bydd yr unigolion a'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i

ddatblygu ei gapasiti yn ogystal â sgiliau a phrofiad aelodau staff unigol. Atgyfnerthir arweinyddiaeth mewn Llywodraeth Leol gan gyfranogiad pobl â llawer o wahanol fathau o gefndiroedd, sy'n adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.

F. Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus

Mae angen i Lywodraeth Leol sicrhau bod y sefydliadau a strwythurau llywodraethu hynny y mae'n eu goruchwylio wedi sefydlu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso darpariaeth effeithiol ac effeithlon o wasanaethau cynlluniedig. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhan bwysig ac annatod o'r system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni deilliannau. Dylid ystyried risg a rhoi sylw iddo fel rhan o bob gweithgaredd gwneud penderfyniad.

Mae system rheoli ariannol cadarn yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisïau a chyflawni deilliannau arfaethedig, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau mewn modd strategol, darpariaeth gwasanaeth effeithlon ac atebolrwydd.

Mae'n hanfodol hefyd bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu ar waith fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau, llunio polisi ac adolygu atebol. Mae diwylliant gweithio positif sy'n derbyn, hyrwyddo ac annog her adeiladol yn hollbwysig i graffu llwyddiannus a darparu gwasanaethau llwyddiannus. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y diwylliant hwn yn digwydd yn awtomatig, rhaid wrth ymrwymiad cyhoeddus dro ar ôl tro gan y rhai mewn awdurdod.

G. Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Ystyr atebolrwydd yw sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn gallu ateb amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig gydag adrodd ar y camau a gwblhawyd, ond mae hefyd yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio mewnol ac allanol ill dau yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.

Ffynhonnell: CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*

3.3 Mae'r Egwyddorion hyn wedi eu rhannu ymhellach i nifer o is-egwyddorion.

3.4 Mewn ymateb i'r Fframwaith, mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi ystyried yr Egwyddorion Craidd a'r Is-egwyddorion yn y Fframwaith ac wedi llunio Cofrestr Risg Llywodraethu, sy'n rhan o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cofrestr Risg Llywodraethu yn adnabod risgiau mewn 24 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau hyn.

3.5 Mae cyfrifoldeb penodol am y risgiau hyn wedi eu rhannu ar draws y Cyngor, fel a ganlyn

Adran	**Nifer Risgiau**
Cefnogaeth Gorfforaethol	5
Cyllid	4
Tai ac Eiddo	1
Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol	14
Cyfanswm	**24**

3.6 Yr adran berthnasol sy'n gyfrifol am asesu'r risgiau hyn yn barhaus, gyda'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw trosolwg ohonynt.

3.7 Fel sy'n gyffredin mewn trefniadau rheoli risg, rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor wrth sgorio maint y risgiau yma, sef

- **Effaith** y digwyddiad petai'r risg cael ei wireddu
- **Tebygolrwydd** y risg o gael ei wireddu.

3.8 Mae'r Effaith a'r Tebygolrwydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, gan ddefnyddio'r canllawiau sgorio canlynol.

Effaith

Sgôr	Effaith	Diffiniad
5	Catastroffig	Effaith **catastroffig** ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion
4	Dinistriol	Effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu **sylweddol iawn** ar nifer fawr o drigolion
3	Sylweddol Iawn	Effaith **sylweddol iawn** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd) neu **arwyddocaol** ar nifer fawr o drigolion
2	Arwyddocaol	Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **gweladwy** ar nifer fawr o drigolion
1	Gweladwy	Effaith **gweladwy** ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu **ymylol** ar nifer fawr o drigolion.

- Nifer = 10au i 100oedd o drigolion
- Nifer fawr = 1,000oedd i 10,000oedd o drigolion

Tebygolrwydd

Sgôr	Tebygolrwydd	Diffiniad
5	Digwydd rŵan	Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd)
4	Tebygol Iawn	Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy
3	Tebygol	Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim
2	Annhebygol	Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno
1	Annhebygol Iawn	Annhebygol iawn o ddigwydd

3.9 Lluosir y Sgôr Effaith a'r Sgôr Tebygolrwydd gyda'i gilydd i roi **Sgôr Risg Presennol**, sef sgoriau'r risgiau ar sail y rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Diffinnir Sgôr Risg o uchel iawn i isel fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	**Risg Uchel Iawn**
Sgôr 12-16	**Risg Uchel**
Sgôr 6-10	**Risg Canolig**
Sgôr 1-5	**Risg Isel**

3.10 Mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi'r sgôr risg presennol ar gyfer y 24 maes llywodraethu. Mae asesiad adrannau a'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn dod i'r casgliad:

- Nifer risgiau uchel iawn: 0
- Nifer risgiau uchel: 4
- Nifer risgiau canolig: 11
- Nifer risgiau isel: 9

3.11 Lle adnabuwyd fod y sgôr risg presennol yn parhau'n uwch nag y mae'r Cyngor yn fodlon ei dderbyn, mae camau gweithredu pellach wedi eu hadnabod a'u hamlinellu yn y Datganiad. Er hyn, pwysleisir fod mwyafrif y materion sydd wedi eu hamlygu yn y dadansoddiad systematig yma eisoes wedi cael eu hadnabod gan y Cyngor.

4. NEWIDIADAU ERS DATGANIAD 2021/22

4.1 Mae pob un o'r risgiau llywodraethu wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Gwneir hyn gan yr adran gyfrifol fel cam cyntaf, gyda'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd.

4.2 Mae sgôr pump o'r risgiau wedi newid yn ystod y flwyddyn:

Risg	**Sgôr flaenorol**	**Sgôr Effaith**	**Sgôr Tebygol-rwydd**	**Sgôr gyfredol**	**Sylwadau**
Ymgysylltu Methiant i ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion unigol yn arwain at flaenoriaethu a phenderfyniadau gwael	*6 (Canolig)*	Cynyddu o 2 i3	Aros yn 3	**9 (Canolig)**	Mae trefniadau ymgysylltu yn eu lle, ond mae'r Cyngor wedi adnabod camau gweithredu pellach, fel amlinellir yn y Datganiad. Yn gyffredinol, roedd asesiad fod sgôr effaith o 2 ychydig yn isel o ystyried canlyniad methiant i ymgysylltu, felly mae'r sgôr wedi ei gynyddu i 3.
Gwybodaeth Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol	*9 (Canolig)*	Cynyddu o 3 i 4	Aros yn 3	**12 (Uchel)**	Mae gwaith parhaus yn adolygu defnydd y Cyngor o'r data yn ei feddiant, gan gynnwys diogelwch y data hwn, a defnydd effeithiol ohono. Credir byddai effaith methiant yn yr agweddau hyn yn cael effaith "Dinistriol" yn hytrach na "Sylweddol Iawn".
Cyllid Gwendidau wrth rheoli arian cyhoeddus	*9 (Canolig)*	Cynyddu o 3 i 5	Gostwng o 3 i 2	**10 (Canolig)**	Wrth i'r rhagolygon ariannol am y blynyddoedd nesaf waethygu, gan gynnwys y posibilrwydd cryf o orfod defnyddio mwy reserfau er mwyn cydbwyso'r gyllideb, byddai methiant i reoli'r gyllideb yn drychinebus, felly rhoddir sgôr effaith o 5. Ar y llaw arall, mae'r Cyngor yn argyhoeddedig fod trefniadau rheoli cyllideb cryf yn eu lle, felly mae'r canfyddiad o'r tebygolrwydd o fethiant wedi gostwng, gyda'r sgôr yn gostwng o 3 i 2.

Risg	Sgôr flaenorol	Sgôr Effaith	Sgôr Tebygol-rwydd	Sgôr gyfredol	Sylwadau
Iechyd, Diogelwch a Llesiant Trefniadau a gweithredu anniogel gan Wasanaethau y Cyngor i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn effeithiol	*15 (Uchel)*	Gostwng o 5 i 4	Cynyddu o 3 i 4	**16 (Uchel)**	Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y trefniadau sydd yn eu lle yn golygu y byddai effaith unrhyw ddigwyddiad yn llai nag oedd yn flynyddol, ond mae'n parhau "Ddinistriol" yn hytrach na "Trychinebus". Ar y llaw arall, o asesu'r trefniadau credir fod y tebygolrwydd o ddigwyddiad o'r fath ychydig yn uwch nag oedd wedi ei asesu'n flaenorol. Mae'r Datganiad yn egluro'r camau gweithredu sydd yn eu lle i ddod â'r sgôr yma yn ôl i lawr.
Cyswllt Cwsmer Diffyg ymateb yn amserol i ymholiadau yn arwain at nifer cynyddol o alwadau o fethiant sydd yn arwain at rwystredigaeth yr ymholydd ac at lwyth gwaith staff sy'n derbyn y galwadau	*Risg Newydd*	3	4	**12 (Uchel)**	Mae hwn yn risg newydd, fydd yn cael ei gadw dan arolwg yn y ffordd arferol.

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft sy'n ymddangos yn yr atodiad.
- Herio'r Pennaeth Cyllid am sgoriau risg sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.
- Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.
- Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i Gyngor Gwynedd wneud trefniadau i sicrhau gwelliant wrth arfer ei swyddogaethau, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côd Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A'U HEFFEITHIOLRWYDD

3.1 Mae'r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

3.2 Er mwyn adlewyrchu Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government,* mae'r fframwaith leol ar ffurf Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan adnabod 24 maes o risg llywodraethu.

3.3 Rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu, y risgiau perthnasol a threfniadau'r Cyngor er mwyn ymdrin â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny, yng ngweddill y rhan yma o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4 Ar gyfer pob un o'r Risgiau Llywodraethu, dangosir sgôr risg cyfredol, sef y sgôr ar ôl asesiad gwrthrychol o'r trefniadau rheoli sydd yn eu lle rŵan. Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:

- **Effaith** y risg petai'r digwyddiad yn cael ei wireddu
- Y **Tebygolrwydd** iddo ddigwydd.

3.5 Mae'r sgoriau Effaith yn amrywio o 1 (effaith gweladwy) i 5 (effaith catastroffig), a'r sgoriau Tebygolrwydd o 1 (Annhebygol Iawn) i 5 (digwydd rŵan). Cyfrifir y sgôr risg drwy luosi'r sgôr effaith a'r sgôr tebygolrwydd gyda'u gilydd.

3.6 Asesir lefel gymharol y risgiau fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	**Risg Uchel Iawn**
Sgôr 12-16	**Risg Uchel**
Sgôr 6-10	**Risg Canolig**
Sgôr 1-5	**Risg Isel**

Diwylliant

Risg: Fod diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r rhaglen 6 diwrnod i hyfforddi rheolwyr gwasanaeth ar egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) wedi'i chyflwyno ers Haf 2017. Mae pob rheolwr gwasanaeth wedi dilyn yr hyfforddiant hwn erbyn hyn gyda rhaglen i sicrhau bod pob rheolwr newydd yn derbyn yr hyfforddiant i'r dyfodol.
- Mae'r Rhwydwaith Rheolwyr wedi'i ail-sefydlu ac wedi cynnal ei gyfres cyntaf o gyfarfodydd ym Mawrth 2019. Mae'r arwyddion cynnar yn galonogol gyda'r anogaeth i reolwyr a'u timau ymgymryd ag adolygiadau o fewn eu gwasanaethau eu hunain yn hytrach na'r canolbwyntio blaenorol ar gynnal adolygiadau dwys.
- Cylchredwyd swydd-ddisgrifiad newydd i bob rheolwr/uwch-reolwr sy'n amlinellu'r ymddygiadau disgwyliedig ohonynt a chytunwyd ar gynnwys generig i swydd-ddisgrifiad newydd ar gyfer penaethiaid a penaethiaid cynorthwyol. Mae fersiwn terfynol swydd-ddisgrifiad diwygiedig i arweinyddion tîm a gweddill staff y Cyngor sydd yn cadarnhau'r ymddygiadau disgwyliedig ohonynt wedi'u cytuno arnynt.
- Mae adolygiad o gynnydd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor wedi'i gynnal mewn cydweithrediad ag aelodau Cabinet a Grwp Tasg a Gorffen o blith aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Arweiniodd hynny at Raglen Waith 5 mlynedd o'r newydd hyd at 2028 gafodd ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 7 Mawrth 2023. Mae'r Cynllun yn adnabod naw maes y byddwn yn canolbwyntio arno er mwyn gwreiddio'r "ffordd o weithio" ymhellach.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	3	**12**

Ymddygiad

Risg: Diffyg integriti, moeseg a pharch yn ymddygiad aelodau a swyddogion, gan danseilio hyder y cyhoedd yn y Cyngor

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; Y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau intergriti a moeseg. Mae tystiolaeth o weithredu pan mae'n ymddangos fod y codau ymddygiad hyn wedi cael eu torri.
- Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsman fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	**4**

Cyfreithlondeb

Risg: Anwybyddu rheol y gyfraith, sy'n golygu fod y Cyngor yn agored i heriau yn y llysoedd.

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Rhaid i swyddogion statudol (y Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid) gynnig sylwadau ar unrhyw benderfyniad ffurfiol, fel rhan o Gyfansoddiad cynhwysfawr sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Mae protocolau ffurfiol yn eu lle er mwyn gwarchod hawliau'r swyddogion statudol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	1	**3**

Bod yn agored

Risg: Cyngor sydd ddim yn agored, sy'n golygu nad oes modd ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Isafswm bosib o adroddiadau Pwyllgor sydd yn eithredig
- Rhoddir cyhoeddusrwydd i daflenni penderfyniad aelodau unigol, gyda gweithdrefnau sy'n sicrhau fod hyn yn digwydd.
- Cyhoeddir papurau cefndir gydag adroddiadau pwyllgor er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn.
- Fe we-ddarlledir nifer o gyfarfodydd pwyllgorau sy'n cymryd penderfyniadau.
- Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiadau perfformiad yn rheolaidd fel rhan o'u cyfarfodydd sy'n agored a bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol, Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad a'r Datganiad o'r Cyfrifon i geisio rhoi gymaint o wybodaeth ag y byddai trigolion ei angen i ni fod yn atebol.
- Defnyddir ddulliau amrywiol eraill hefyd megis y wefan a chyfryngau cymdeithasol i geisio sicrhau fod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd o fewn y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	1	**2**

Rhanddeiliad

Risg: Perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol, gan ddiweddu gyda gwasanaethau is-optimaidd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yn gallu cael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd.
- Mae yna waith wedi digwydd i greu Cynllun Llesiant ac mae'r berthynas rhwng y sefydliadau wedi aeddfedu.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Nid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r unig gyfrwng ar gyfer cydweithio gydag asiantaethau eraill ac mae yna risg bod yr amrediad eang o strwythurau cydweithio yn gallu llesteirio'r holl amcan o gydweithio gan greu dryswch.
- Mae gan y Cyngor Feini Prawf Partneriaethau wedi cael eu sefydlu ers sawl blwyddyn, fel bod Cyngor Gwynedd dim ond yn mynd i bartneriaethau pan mae hynny er lles pobl Gwynedd.
- Mae cydweithio hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol sydd ddim bob tro mor effeithiol ag y gallai fod oherwydd maint yr ôl troed a'r trafferthion o adeiladu perthynas gyda nifer mor fawr o bobl. Mae yna rai engreifftiau o lwyddiant (e.e. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru).

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	**9**

Ymgysylltu

Risg: Methiant i ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion unigol yn arwain at flaenoriaethu a phenderfyniadau gwael

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae ystod o weithdrefnau ymgysylltu corfforaethol wedi eu sefydlu i sicrhau ein bod yn derbyn barn y cyhoedd a rhan-ddeiliaid eraill fel bo'n briodol. Maent yn cynnwys trefniadau i sicrhau fod ymarferiadau ymgysylltu corfforaethol y Cyngor yn cyrraedd grwpiau a charfannau megis pobl ifanc, pobl LGBT+, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, oedolion gydag anableddau dysgu a busnesau Gwynedd.
- Yn ystod 2022/23 defnyddiwyd ymarferiad ymgysylltu Fframwaith Adfywio'r Cyngor i:
  - gynnal ymarferiad ymgysylltu ddaeth a budd i sawl Adran, Gwasanaeth a phrosiect allweddol gan gynnwys Arolwg Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, Asesiad Anghenion Poblogaeth (Adran Oedolion), Arolwg Angen Tai Lleol (Adran Tai ac Eiddo), Cymunedau Glan a Thaclus (Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy (Economi a Chymuned);
  - dreialu'r defnydd o feddalwedd ymgysylltu newydd (meddalwedd "Bang The Table");
  - ddatblygu brand newydd ar gyfer y maes ymgysylltu (brand "Ardal Ni");
  - dreialu ffordd newydd o ymgysylltu ar lefel 13 ardal lleol yn hytrach na Gwynedd gyfan.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	**9**

Cyfeiriad a gweledigaeth

Risg: Cyfeiriad a gweledigaeth sydd heb ei wreiddio mewn canlyniadau i unigolion ac nad yw felly'n gwireddu anghenion Pobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth bennu ei flaenoriaethau a rheoli disgwyliadau oherwydd y diwylliant o ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, gyda'r mesurau perfformiad a ddefnyddir i herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau yn deillio o hyn.
- Cymeradwywyd Cynllun y Cyngor 2023-28 gan y Cyngor llawn ar 2 Mawrth 2023. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	2	**6**

Cynaliadwyedd

Risg: Methu cydymffurfio gyda 5 egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, ar y cyd â'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi gwneud gwaith cychwynnol i adnabod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweithredu yn unol â'r 5 egwyddor - Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Cynnwys.
- Mae'r Cyngor eisioes yn cydymffurfio â'r holl egwyddorion ond i raddau gwahanol. Penderfynodd y Grŵp Rheoli mai'r ffordd orau oedd i Dimau Rheoli Adrannau i dalu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae adroddiadau sy'n dod gerbron y Cabinet yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol er mwyn eu hadolygu i gadw golwg ar sefyllfaoedd lle efallai nad oes sylw priodol wedi eu rhoi i'r egwyddorion. Drwy hyn y gobaith yw y byddwn yn gwreiddio'r egwyddorion yn naturiol yn hytrach na thicio bocsys ond amser a ddengys a fyddwn yn llwyddiannus.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	**9**

Penderfyniadau

Risg: Amharodrwydd i wneud penderfyniadau ar weithredu, sy'n golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Tystiolaeth dros y blynyddoedd diwethaf fod Cyngor Gwynedd yn fodlon gwneud penderfyniadau anodd neu amhoblogaidd e.e. maes ysgolion, allanoli ei Dai Cyngor, gweithredu ar ganlyniadau anodd Her Gwynedd; newid y drefn Ieuenctid a chymryd camau i sicrhau egwyddorion gweithredu ym maes Addysg.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	**4**

Cynllunio Gweithrediadau

Risg: Ymyrryd heb gynllunio'n ddigonol

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gynnal balans addas rhwng cael gweithdrefnau Rheoli Prosiectau a gweithio'n effeithlon. Yn hynny o beth, mae'r Cyngor eisoes yn cynnal trefniadau rheoli prosiect ar cadarn ar gyfer y prosiectau mwyaf, gan ddefnyddio fersiwn llai cynhwysfawr ond yn seiliedig ar yr un egwyddorion ar gyfer prosiectau eraill.
- Er mwyn sicrhau fod y pethau cywir yn cael eu mesur mae mesurau cyflawni pob gwasanaeth yn seiliedig ar gyflawni pwrpas gan geisio sicrhau fod unrhyw weithred yn gwella ein gallu i gyflawni hynny.
- Ceisir taro cydbwysedd rhwng yr angen am drefn a'r angen i gyflawni cyn gynted ag bod modd drwy wneud cyn lleied o waith papur ag sy'n gyson gyda hynny, gan annog adroddiadau syml a byr yn gosod allan y prif bwyntiau allweddol.
- Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canol, gyda cyllidebau blynyddol yn seiliedig ar hwnnw. Mae gwaith y Cyngor ar gynllunio ariannol yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan yr archwilwyr allanol, ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd rôl flaenllaw ar graffu ariannol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	**4**

Adolygu deilliannau

Risg: Parhau i wneud yr un pethau yn anghywir nad ydym yn dysgu gwersi

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae trefniadau asesu risg, llunio Cynllun Corfforaethol a rheoli prosiect y Cyngor yn sicrhau fod y deilliannau a fwriedir eu cyflawni ar gychwyn unrhyw brosiect yn glir.
- Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn ceisio canolbwyntio ar asesu i ba raddau y mae'r deilliannau hynny wedi cael eu cyflawni. Mae yna engreifftiau lle mae hynny wedi digwydd yn dda ac mae'r sefyllfa yn gwella.
- Mae yna drafodaethau yn parhau i geisio sicrhau fod y Blaenoriaethau gwella yn ein Cynllun Corfforaethol yn fwy pendant o ran deilliannau, gyda'r Hunanasesiad yn asesu i ba raddau y cyflawnwyd y deilliannau hynny.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	2	**6**

Asedau Eiddo

Risg: Asedau Eiddo'r Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae’r Cynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2019/20 hyd 2028/29 wedi cael ei ddatblygu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019.
- Canlyniad hyn yw fod nifer o adeiladau nad oedd mo'u hangen mwyach wedi cael eu gwaredu.
- O ran y cerbydau mae yna gynllun ar waith i geisio gwneud gwell defnydd o fflyd y Cyngor sydd eisoes wedi cyflwyno rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	**4**

Asedau Technoleg Gwybodaeth

Risg: Asedau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Cynllun Digidol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28. Y disgwyliad yw y bydd yn cael ei gyflwyno i'w graffu gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Medi 2023 cyn bydd yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2023.
- Mae'r sianel ddigidol yn ddatblygiad parhaus a gwasanaethau newydd yn cael eu rhyddhau'n gyson. Mae sawl datblygiad mewnol i wella gweinyddiaeth mewnol, gan gynnwys rhestr faith o ddatblygiadau hunanwasanaeth staff a gwelliannau sylweddol i drefniadau hyfforddi. Nid y sianeli hunanwasanaeth (mewnol ac allanol) yw'r unig ddatblygiadau. Mae oddeutu hanner cant o systemau newydd yn cael eu datblygu'n flynyddol a'r rhain wedi eu teilwra o amgylch gofynion y gwasanaethau yn hytrach na gorfod addasu gwasanaeth i gwrdd ag anghenion system penodol.Tra bod yna enghreifftiau lu o ble 'rydym wedi defnyddio technoleg i wella sut yr ydym yn cyflawni gwasanaethau i drigolion Gwynedd, nid yw'n digwydd ar y cyflymder yr hoffem iddo ddigwydd a mae sawl cais yn parhau am adnodd i'w datblygu.
- Wrth ymestyn defnydd technoleg mae risgiau pellach yn ein wynebu o ran diogelwch a seibrgadernid, gyda'r elfen yma yn asesiad hanfodol o unrhyw ddatblygiad newydd neu adolygiad o ddatrysiad cynhenid.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	**9**

Cynllunio'r Gweithlu

Risg: Methiant i gynllunio'r gweithlu o ran denu, datblygu a chadw staff

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Mae Grŵp Prosiect wedi ei ffurfio ac amcanion tymor byr a thymor hirach yn eu lle. Mae'r Tîm Adnoddau Dynol wedi mynychu hyfforddiant ar y sgiliau perthnasol sydd eu hangen i gynllunio'r gweithlu yn effeithiol. Mae'r pwyslais pennaf ar hyn o bryd ar ddatrys y problemau recriwtio tymor byr mae'r Cyngor yn eu profi, ond yr amcan pwysicaf a thymor hirach ydi gwella sut rydym yn denu a chadw staff, gan gynllunio ein anghenion staffio rai blynyddoedd ymlaen llaw gan leihau'r risg o gael problemau denu staff yn y dyfodol.
- Mae'r gwaith o ddatblygu gallu'r Cyngor i drin data er mwyn cynllunio anghenion staffio yn derbyn sylw, gan gynnwys datblygu system o ddefnyddio cyfweliadau gadael.
- Mae'r rhaglen o ddenu prentisiaid a hyfforddeion proffesiynol wedi ennill ei phlwy' er mwyn diwallu yr angen am ddatblygu swyddogion mewn meysydd arbenigol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	**9**

Arweinyddiaeth

Risg: Diffygion yn arweinyddiaeth y Cyngor yn golygu nad ydym yn gwneud y pethau cywir

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae yna elfen o dystiolaeth (drwy hunan asesiad) fod arweinyddiaeth o fewn y Cyngor yn gwella gyda nifer o enghreifftiau o arweinyddiaeth trawsffurfiol yn cael ei arddangos yn hytrach nag arweinyddiaeth trafodaethol. Mae'r pwyslais cynyddol a roddir ar "arwain" yn hytrach na "rheoli" o fewn diwylliant Ffordd Gwynedd yn arwydd arall cadarn o'r camau breision sy'n cael eu cymryd gydag aelodau'r Cabinet yn cymryd rol blaenllaw i hyrwyddo arweinyddiaeth dda trwy ymrwymo i'w datblygiad fel arweinwyr.
- Cytunwyd ar yr hyn ddiffinir fel arweinyddiaeth o fewn Cyngor Gwynedd ac mae'r diffiniad hwnnw yn cael ei adlewyrchu mewn swydd-ddisgrifiadau diwygiedig ar gyfer pob pennaeth a rheolwr yn y Cyngor. Mae'r ymrwymiad ar lefel gwleidyddol a gweithredol yn arddangos bod y camau positif hyn wedi dwyn ffrwyth a bod yr angen a'r gallu i arwain yn gwreiddio fel y norm o fewn y Cyngor.
- Mae atgyfodiad y Rhwydwaith Rheolwyr, gyda'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau arwain, yn gam allweddol arall yn y newid pwyslais o ddiwylliant "rheoli" i "arwain" o fewn y Cyngor tra bo'r Adolygiad Rheolaethol a'r swydd-ddisgrifiadau diwygiedig hefyd wedi cyfrannu at eglurder yng nghyswllt y disgwyliad o arwain. Yn sgil hyn oll, ystyrir y gwaith yma fel rhywbeth sy'n parhau yn allweddol ond gan gydnabod nad yw'n gymaint o risg ag y bu yn y gorffennol.
- Er mwyn adlewyrchu hynny, mae'r gwaith hwn wedi'i ymgorffori o fewn rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd yn hytrach na sefyll fel prosiect ar ei draed ei hun er bod prosiect penodol yn parhau i gael blaenoriaeth gwella uchel yng nghyswllt Merched mewn Arweinyddiaeth o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad y gweithlu cyfan ac felly'n edrych i hybu'r nifer merched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.
- Mae'r Tim Rheoli Corfforaethol wedi ymrwymo i'w ddatblygiad, gyda pob aelod o'r tim wedi cwblhau proffil personol ac hefyd wedi mynychu gweithdy cychwynnol fel gweithgaredd i gryfhau'r tim ar gyfer y dyfodol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	2	**8**

Rheoli Risg

Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli risg, sy'n cynyddu'r bygythiad o rhywbeth yn mynd o'i le neu fethu cymryd cyfle i wella

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol.
- Mae pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnblyg y Cyngor.
- Lansiwyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ar 6 Mawrth 2021. Mae'r system newydd wedi profi i fod yn gyfleuster hwylus i ddefnyddiwr ym mhob adran wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen ei wneud, ac i gynorthwyo aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwyliedig wedi cael eu cymryd.
- Mae gwersi wedi eu dysgu o'r pandemig Covid-19 sydd wedi bod yn werthfawr mewn argyfyngau dilynol, e.e. y rhyfel yn Wcrain.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
5	2	**10**

Perfformiad

Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli perfformiad sy'n golygu nad ydym yn gallu cymryd camau priodol i wireddu ein pwrpas

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae cyfundrefn Rheoli Perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau fod unedau busnes yn cyflawni eu pwrpas, a hynny trwy adolygu'n barhaus os ydym yn mesur y pethau cywir.
- Mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Cabinet a rheolwyr i asesu'r perfformiad diweddaraf gydag aelodau o'r Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd yn bresennol i roi her. Cyflwynir adroddiadau perfformiad rheolaidd gan yr aelodau Cabinet ar eu meysydd cyfrifoldeb hwy i gyfarfodydd y Cabinet. Mae trefniadau clir wedi cael eu rhoi yn eu lle ar gyfer 2023/24.
- Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn arsylwi ar ein perfformiad mewn gwahanol feysydd drwy gyhoeddi amrywiol adroddiadau ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd trosolwg fod unrhyw argymhellion yn derbyn sylw.
- Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol yn parhau i weithio'n dda. Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	**4**

Rheolaeth Fewnol

Risg: Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas, sy'n golygu unai nad ydym yn gwarchod rhag risgiau, neu yn gwastraffu adnoddau ar or-reoli

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio yn cadarnhau fod modd rhoi sicrwydd ar y rheolaethau mewnol yn y Cyngor.
- Mae adolygu ac addasu rheolaethau mewnol fel eu bod yn gymesur i'r hyn sydd ei angen yn greiddiol i'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan waredu tasgau or-fiwrocrataidd. Mae cael gwared o rwystrau yn ran o waith pawb, gan arwain at lefel addas o reolaeth fewnol.
- Mae effeithlonrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac mae hunanasesiad yn dangos fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl.
- Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gylch gorchwyl cytunedig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn effeithiol iawn yn gwireddu ei swyddogaethau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	**4**

Gwybodaeth

Risg: Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol.

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae Cynllun Gwybodaeth 2021-2026 yn cynnwys nifer o gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â risgiau rheoli gwybodaeth a'r defnydd o ddata. Mae 16 o'r 45 prosiect o fewn y cynllun wedi'u cwblhau eisoes a'r gweddill ar y gweill.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	3	**12**

Cyllid

Risg: Gwendidau wrth rheoli arian cyhoeddus

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli'n ariannol, gan gynnwys cyfrifwyr ac archwilwyr mewnol, dan arweiniad y prif swyddog cyllid.
- Mae gan archwilwyr mewnol ffocws ar drefniadau effeithiol a rheolaethau mewn systemau ariannol, tra mae'r cyfrifwyr yn gweithio'n agos gyda'r adrannau ac yn annog perchnogaeth rheolwyr o'u systemau, perfformiad, a phriodoldeb ariannol.
- Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau fod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
5	2	**10**

Atebolrwydd

Risg: Adrodd gwael, heb dryloywder ac anaddas i'r gynulleidfa

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Isel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae'r Cyngor wedi darparu canllawiau ar baratoi adroddiadau ac ar wneud penderfyniadau da, er mwyn sicrhau fod yr adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn eglur.
- Yn ogystal ag adroddiadau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'r adroddiadau a gynhyrchir hefyd yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, Cynllun y Cyngor (sy'n cwmpasu cynlluniau busnes adrannol) a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gynhyrchir yn unol â fframwaith CIPFA/Solace.
- Mae'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol.
- Bydd monitro adroddiad Cabinet yn parhau i ddigwydd yn naturiol gyda'r Prif Weithredwr yn taro golwg ar bob un.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	**4**

Sicrwydd

Risg: Diffyg sicrwydd ac atebolrwydd sy'n codi amheuaeth ymysg y cyhoedd am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Canolig** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae nifer o ffyrdd ar gael o fewn y Cyngor er mwyn darparu sicrwydd annibynnol fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithio fel y dylent. Mae swyddogion statudol yn sicrhau fod materion yn cydymffurfio â'r gyfraith a threfniadau'r cyfansoddiad tra bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr yn herio yn barhaus a yw adrannau yn gwneud y pethau iawn. Mae aelodau'r Cabinet hefyd yn cwrdd yn aml i herio eu gilydd ar ddatblygiadau.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cadw trosolwg ar y trefniadau llywodraethu yn ogystal ag ar weithrediad argymhellion archwilwyr allanol.
- Yn cefnogi hyn mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â'r safonau proffesiynol statudol, sef Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus.
- Yn ffurfiol, fodd bynnag, y drefn craffu sydd i fod i ddal y Cabinet i gyfrif. Mae yna graffu a herio penderfyniadau a pholisiau yn dryloyw a gwrthrychol ond mae ansicrwydd ynglŷn a pha mor effeithiol y mae hynny.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	3	**6**

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Risg: Trefniadau a gweithredu anniogel gan Wasanaethau y Cyngor i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn effeithiol

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Mae rhaglen waith fanwl wedi ei pharatoi gan gychwyn gyda chymwyseddau a hyfforddiant ar y cymwyseddau hynny o ran arweinyddion y Cyngor.
- Mae pob aelod Cabinet wedi derbyn hyfforddiant, ac mae cyfres o sesiynau i aelodau etholedig wedi eu cynnal. Mae sesiwn hyfforddi i Dîm Rheoli y Cyngor wedi digwydd ar 13 Chwefror 2023.
- Mae gwaith ar y gweill i edrych yn fanylach ar hyfforddiant craidd / mandadol a'r broses llywodraethu sydd gan y Cyngor er mwyn sicrhau fod staff yn mynychu hyfforddiant hanfodol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	4	**16**

Cyswllt Cwsmer

Risg: Diffyg ymateb yn amserol i ymholiadau

Asesiad:

Rydym wedi asesu fod hwn yn risg **Uchel** ar hyn o bryd, oherwydd:

- Dadansoddiad manwl wedi'i gyflawni ac wedi'i gyflwyno i Aelodau yn Hydref 2022 gyda rhaglen waith wedi'i hadnabod a'r risg wedi'i ychwanegu i'r risgiau llywodraethu corfforaethol.
- Galwadau Cynllunio yn cael eu derbyn yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Cynllunio ers y 1 Ebrill 2023 a modiwl hyfforddiant byr wedi'i dreialu ar gyfer holl staff sydd yn ymdrin ag ymholiadau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	4	**12**

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

4.1 Dengys y sgoriau uchod na ystyrir fod yr un o'r 24 maes llywodraethu yn cyflwyno risg uchel iawn. Mae 4 yn risg uchel ac 11 yn risg canolig.

4.2 Mae camau gweithredu ar gyfer y meysydd sydd â risg uchel iawn, uchel neu ganolig wedi eu nodi isod.

RISG UCHEL

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Diwylliant y Cyngor	Mae Grwp Arweiniol (Tim Rheoli Corfforaethol i gyd yn aelodau) wedi ei ffurfio ac wedi cyfarfod am y tro cyntaf ym Mehefin 2023. Bydd y Grwp yn cadw trosolwg ar weithrediad y Rhaglen Waith ac yn cynnig arweiniad ar wreiddio'r diwylliant o fewn y Cyngor. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ar gynnydd y gwaith i'r dyfodol gyda'r cynnwys yn rhannol seiliedig ar hunan-asesiadau a gyflawnir gan bob Adran. Mae swyddog penodol wedi'i adnabod ar gyfer gyrru pob un o'r naw ffrwd gwaith o fewn y Cynllun Pum Mlynedd.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Gwybodaeth	Parhau efo cynllun gweithredu'r Cynllun Gwybodaeth.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyswllt Cwsmer	Cynllun drafft ar gyfer Gweithio i'r Dyfodol yn cael ei ddarparu er mwyn ei fabwysiadu yn ystod Hydref 2023 ynghyd â newidiadau i drefniadau swyddfa gefn hunan-wasanaeth ar-lein fydd yn caniatáu i swyddogion nodi gweithrediadau yn uniongyrchol ar gyfrif ymholwyr. Cynllun Digidol newydd y Cyngor i gynnwys bid am gyllid i ariannu system ffon fydd wedi'i hintegreiddio efo *Microsoft Teams.*	Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol
Iechyd, Diogelwch a Llesiant	Mae rhaglen waith fanwl wedi ei pharatoi	Cefnogaeth Gorfforaethol

RISGIAU CANOLIG

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Rhanddeiliad	Mae yna ymdrechion yn mynd ymlaen mewn amryw feysydd i geisio symleiddio perthynas waith sy'n gymhleth. Fodd bynnag rhaid cydnabod mai dim ond hyn a hyn y mae modd i ni ei wneud ac mae yna le i gwestiynu mai'r ateb bellach yw ceisio darganfod ffyrdd o weithio rownd y rhwystrau deddfwriaethol sydd wedi cael eu gosod gan y Llywodraeth arnom. Rydym eisoes yn gwneud hynny yn eithaf llwyddiannus.	Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol
Ymgysylltu	Yn ystod 2023/24, byddwn yn: • parhau i ddatblygu a chryfhau'r trefniadau ymgysylltu ar draws y Cyngor; • parhau i amlygu'r cyfleoedd a chefnogi gwasanaethau unigol i ymgysylltu'n rhagweithiol gyda phobl Gwynedd; • parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol gyda grwpiau yr ydym fel Cyngor yn ei chael yn anodd eu cyrraedd; • cwblhau'r gwaith ar brosiect ymgysylltu sy'n rhan o Gynllun Cydraddoldeb y Cyngor.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyfeiriad a gweledigaeth	Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Cynaliadwyedd	Byddwn yn edrych ar ein trefniadau cynllunio (gan gynnwys Cynllun y Cyngor, Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a'r hunan asesiad corfforaethol sydd angen ei gynnal) er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn rhoi mwy o sylw i egwyddorion y Ddeddf gan hefyd adrodd ar y cynnydd. Byddwn yn ystyried sut y gellir codi ymwybyddiaeth o'r egwyddorion trwy eu perthnasu hefo egwyddorion gweithredu Ffordd Gwynedd.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Adolygu deilliannau	Derbynnir y risg ar ei lefel bresennol.	Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol
Asedau Technoleg Gwybodaeth	Cynllun Digidol y Cyngor 2023-28 i gael ei gymeradwyo yn ystod 2023/24 (Cabinet Tachwedd 2023).	Cyllid

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Cynllunio'r Gweithlu	Er mwyn gosod sylfaen i gynlluniau tymor hir, byddwn yn comisiynu darn o waith ymchwil a fydd yn rhoi cyfeiriad tymor hir i'r Cyngor ar ei anghenion staffio, gan edrych ar y math o sgiliau a swyddi y byddwn ni eu hangen ymhen rhai blynyddoedd. Bydd y gwaith hwn yn arwain at gynllun denu a datblygu staff ar gyfer y tymor hir.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Arweinyddiaeth	Mae Rhaglen Datblygu Potensial benodol wedi'i datblygu ar gyfer merched fel rhan o'r Prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth. Mae Cynllun Mentora ar gyfer merched hefyd wedi'i gymeradwyo ac mae hyfforddiant penodol i'r garfan gyntaf o "fentoriaid" wedi'i gynnal. Byddwn yn parhau i gynnal "sgyrsiau dros baned" ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr ar draws y Cyngor ac hefyd i gynghorwyr benywaidd yn y Cyngor newydd. Byddwn hefyd yn datblygu'r ymddygiadau arwain a ddisgwylir o reolwyr yn gyffredinol ac hynny'n bennaf trwy gyfuniad o hyfforddiant yn ymwneud a'r "ffordd o weithio" a thrwy herio'r ymddygiadau fel rhan o'r gwerthuso parhaus sy'n cael ei hyrwyddo fel rhan o sefydlu'r diwylliant. Byddwn yn parhau i arbrofi efo dull amgen o gynnal sesiynau y rhwydwaith rheolwyr trwy sefydlu grwpiau o 12 rheolwr fydd yn gallu cynnal a chefnogi'u gilydd.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Rheoli Risg	Gwaith dal angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau’r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a’u hadolygu’n rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth Yswiriant a Risg yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod risgiau yn cael eu diweddaru'n barhaus. Bydd y drefn o ystyried cynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau yn datblygu ymhellach. Y Gofrestr Risg i gael ei gyflwyno'n rheolaidd i'r Grŵp Llywodraethu er mwyn cynnal gwaith gwirio ansawdd, cyn cyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.	Cyllid

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Cyllid	Ar ôl cyfnod hir o ddarganfod a chyflawni arbedion, dros £35m yn y cyfnod ers 2015/16, mae'r cynlluniau bellach gymaint yn anoddach i'w gwireddu gyda phrosiectau effeithlonrwydd yn llawer mwy o waith na thorri gwasanaethau. Cymeradwywyd cyfres o arbedion newydd â gwerth £6.4m, sydd i'w gwireddu'n bennaf dros y 2 flynedd nesaf, gan y Cabinet yn Chwefror 2023.	Cyllid
Sicrwydd	Bydd y Tim Craffu yn parhau i weithio'n agos trwy'r Fforwm Craffu gyda'r Cadeiryddion er mwyn gweithredu ar y rhaglenni craffu yn ystod y flwyddyn i ddod.	Cefnogaeth Gorfforaethol

Rhan 5: BARN

Rydym o'r farn fod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd fod ein trefniadau llywodraethu ar y cyfan yn gweithredu'n dda. Serch hynny, rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion a nodir yn Rhan 4 uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

DAFYDD GIBBARD	**Cyng. DYFRIG SIENCYN**
PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD	**ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD**
DYDDIAD	**DYDDIAD:**

Eitem 7

CYFARFOD:	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD:	**12 HYDREF 2023**
TEITL:	**TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**
PWRPAS:	**Adrodd ar y Sefyllfa Ddiweddaraf**
GWEITHREDIAD:	**Derbyn yr wybodaeth ac ystyried y risgiau cyffredinol sy'n deillio o lithriadau yn yr arbedion**
AELOD CABINET:	**CYNGHORYDD IOAN THOMAS**
SWYDDOG CYSWLLT:	**FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL**

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.

2. Bydd yr adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion) yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 7 Tachwedd 2023.

3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

4. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:
Adroddiad Cabinet 7/11/2023: Trosolwg Arbedion: Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	**Trosolwg Arbedion:** **Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid**
Swyddog perthnasol:	**Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau**
Dyddiad y cyfarfod:	**7 Tachwedd 2023**

1. Penderfyniad a geisir

1.1 Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2023/24 a blynyddoedd blaenorol.

1.2 Cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion hanesyddol gwerth £2,056,430 gan eu dileu o'r gyllideb.

1.3 Defnyddio'r ddarpariaeth arbedion o £1,956,430 i ariannu dileu cynlluniau arbedion, ynghyd â defnyddio £100,000 o bremiwm treth cyngor ar gyfer y cynllun arbedion yn ymwneud â'r maes Digartrefedd.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2023/24 a blynyddoedd blaenorol yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2023.

3.2 Yn adroddiad 'Cyllideb 2023/24' i'r Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023, adroddwyd fod arbedion gwerth £5,194,220 yn ofynnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 er mwyn cau bwlch cyllidol 2023/24. Mae'r arbedion yn gyfuniad o £950,250 oedd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, ynghyd ag arbedion newydd o £1,146,600 ar gyfer Ysgolion a £3,097,370 ar gyfer gweddill y Cyngor.

3.3 Yn ychwanegol, drwy adolygu polisi y Cyngor ar ad-dalu dyled sydd yn ariannu gwariant cyfalaf (Darpariaeth Lleiafswm Refeniw), fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad i'r Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023, ychwanegwyd £2,400,000 pellach at gynlluniau arbedion 2023/24.

3.4 Felly mae cyfanswm yr holl arbedion ar gyfer 2023/24 yn £7.6m.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Ail-asesu arbedion

4.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Er hyn, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd fod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd, oedd amlycaf yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yn y maes Gwastraff. Yn Gorffennaf 2023, adolygwyd y cynlluniau arbedion gan asesu pa gynlluniau arbedion oedd bellach yn anghyraeddadwy. Lluniwyd rhaglen i ddileu gwerth £2,056,430 o gynlluniau oedd â risgiau sylweddol i gyflawni.

4.2 Mae **Atodiad 1** yn rhestru'r cynlluniau gwerth £2,056,430 sydd i'w dileu ac mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r arbedion fesul Adran.

Tabl 1: Arbedion i'w Dileu Fesul Adran

Adran	Arbedion i'w dileu £	Nifer cynlluniau
Priffyrdd a Pheirianneg	133,000	*1*
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,488,430	*10*
Amgylchedd	335,000	*4*
Tai ac Eiddo	100,000	*1*
Cyfanswm	**2,056,430**	***16***

4.3 Yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, wrth sefydlu'r gyllideb ac er mwyn ymateb i'r risg o fethiant i gyflawni rhai cynlluniau arbedion, rhoddwyd darpariaeth arbedion corfforaethol gwerth £1,956,430 yn y gyllideb er mwyn galluogi dileu cynlluniau arbedion petai'r angen yn codi. Argymhellir fod y ddarpariaeth i ddileu'r

arbedion yn cael ei defnyddio yn ei chyfanrwydd, ynghyd â defnydd o £100k o bremiwm treth cyngor ar ail gartrefi i ddileu y cynllun arbedion perthnasol i'r maes Tai.

4.4 Bydd yr adroddiad yn adrodd ar sefyllfa'r arbedion yn dilyn dileu y cynlluniau arbedion yn 4.2.

5. Cynlluniau Arbedion Adrannol Hanesyddol 2015/16 – 2023/24

5.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn seiliedig ar adolygiad Awst 2023, yn erbyn y targed arbedion diwygiedig sydd wedi ei osod iddynt, **cyfanswm o dros £34m. Gellir adrodd bod £33.7m, neu 98% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae'r risg o wireddu'r arbedion ar rai o'r cynlluniau'n parhau.

5.2 Mae 4 cynllun gwerth cyfanswm o £164k wedi llithro ond nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu.

5.3 Mae'r 7 cynllun sy'n weddill gwerth £391k gyda risgiau i gyflawni; 3 cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (cyfanswm o £222k), 1 cynllun gan yr Adran Gyllid (£25k), 2 gynllun gan yr Adran Economi a Chymuned (cyfanswm o £130k) ac 1 cynllun gan Cyfreithiol (£14k).

6. Cynlluniau Arbedion Adrannol Newydd 2023/24

6.1 Mae adroddiad Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023 yn nodi'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd newydd gwerth £6.7m sydd wedi ariannu'r bwlch cyllidol yn 2023/24.

6.2 Mae **Atodiad 3** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn seiliedig ar adolygiad Awst 2023. **Gellir adrodd fod £5.4m, neu 81% o'r cynlluniau yma eisoes wedi eu gwireddu, gyda £426k, neu 6% pellach ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol.**

6.3 Ar hyn o bryd rhagwelir bod rhai risgiau gwireddu gwerth bron i £134k o gynlluniau, 1 cynllun gan yr Adran Amgylchedd gwerth £70k ac 1 cynllun £64k gan yr Adran Gyllid.

6.4 Mae ychydig o oediad i wireddu gwerth £700k o gynlluniau arbedion 2023/24 ond nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu. Mae mwyafrif o'r swm yma yn cynnwys arbedion o £539k gan ysgolion, sydd yn llithro gan fod yr ysgolion yn gweithio i flwyddyn academaidd ac felly bydd y gwireddu yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

7. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2024/25 ymlaen

7.1 Yn sgil y rhagolygon o setliad ariannol gwael ac hefyd yr hinsawdd economaidd presennol a'r lefelau chwyddiant uchel, mae'n anorfod y bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol. Mae cynlluniau arbedion a thoriadau ychwanegol ar gyfer 2024/25 eisoes dan ystyriaeth gan Gyngor Gwynedd ac mi fyddant yn destun adroddiad yn fuan.

7.2 Rhestrir arbedion presennol 2024/25 ymlaen, fesul Adran yn **Atodiad 4**, yr arbedion hanesyddol yn Nhabl 1 a'r arbedion newydd yn Nhabl 2, ond mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

8. Casgliad

8.1 Gellir adrodd bod cyfanswm o £39.1 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 96% o'r £41m gofynnol dros y cyfnod. Mae'n anorfod bod gwireddu'r arbedion wedi bod yn heriol ac rwy'n ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

8.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi sefyllfa ddiweddaraf y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 gyda 96% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

Tabl 2: Crynodeb o statws yr holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015

Statws yr Arbediad	**Porth**	**£m**	***%***
Wedi gwireddu	1	39.13	*95.6*
Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol	2	0.43	*1.0*
Oediad, ond yn symud yn ei flaen	3	0.86	*2.1*
Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu	4	0.49	*1.2*
Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol	5	0.04	*0.1*
Cyfanswm arbedion		**40.95**	*100*

8.3 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Yn ogystal, dileu yr arbedion nad oedd yn cael eu gwireddu fel a nodir yn 1.2 a 1.3 uchod.

9. Camau nesaf ac amserlen

9.1 Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 23 Ionawr 2024 yn dilyn adolygiad diwedd Tachwedd.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Arbedion Hanesyddol i'w Dileu
Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion Hanesyddol 2015/16 - 2023/24 fesul Adran
Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion newydd 2023/24 fesul Adran
Atodiad 4 - Tabl 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion Hanesyddol 2024/25 ymlaen fesul Adran
- Tabl 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion newydd 2024/25 ymlaen fesul Adran

ATODIAD 1

CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL I'W DILEU FESUL ADRAN

Adran	Cynllun	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	Arbedion i'w dileu
Priffyrdd a Pheirianneg	Trefniadau Fflyd (Adolygiad Edge)		85,000	48,000					**133,000**
Oedolion, Iechyd a Llesiant	Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran	64,000							64,000
	Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn			210,000				300,000	510,000
	Uno Dysgu a Datblygu ac Uned Datblygu Gweithlu			18,000					18,000
	Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (ardal Pwllheli, Ffestiniog a De Meirionnydd)						100,000		100,000
	Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a Theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo				15,000	45,000			60,000
	Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen			25,000	75,000				100,000
	Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus				150,000				102,430 *
	Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth							534,000	534,000
Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant		**64,000**	**-**	**253,000**	**240,000**	**45,000**	**100,000**	**834,000**	**1,488,430**
Amgylchedd	Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai (sydd o bosib yn golygu newid diwrnod casglu i drigolion)						150,000		150,000
	Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau					75,000			75,000
	Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu leihau costau				20,000				20,000
	Canolfannau Ailgylchu - newid trefniadau				90,000				90,000
Cyfanswm Amgylchedd		**-**	**-**	**-**	**110,000**	**75,000**	**150,000**	**-**	**335,000**
Tai ac Eiddo	Lleihau dibyniaeth ar lety dros dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol				25,000	75,000			**100,000**
Cyfanswm Arbedion i'w dileu									**2,056,430**

** Dileu'n Rhannol*

ATODIAD 2

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2023/24 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2023/24 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - *nifer*		Cynlluniau sydd efo rhai risgiau i gyflawni £ - *nifer*		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	1,659,740	1,659,740	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Ysgolion	4,331,620	4,331,620	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Amgylchedd	2,972,463	2,922,463	50,000	*1*	-		Llithriad ar un cynllun sef *Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio (£50k).*
Cefnogaeth Gorfforaethol	2,569,218	2,569,218	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cyllid	1,881,636	1,856,636	-		25,000	*1*	Mae risgiau o wireddu arbedion y cynllun *Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol* (£25k)
Economi a Chymuned	2,981,422	2,851,422	-		130,000	*2*	Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 2 gynllun; *Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15 (£45k)* a chynllun yn ymwneud â *Neuadd Dwyfor (£85k).*
Oedolion, Iechyd a Llesiant	6,594,981	6,293,051	79,360	*2*	222,570	*3*	Mae rhai risgiau cyflawni arbedion 3 cynllun sef *Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion* (£40k), *Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus* (£47.57k) ac *Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion* (£135k). Mae 2 gynllun pellach gwerth cyfanswm o £79k wedi llithro ond mae'r Adran yn rhagweld gwireddu rhain yn ystod 2023/24; *Cynyddu incwm a lleihau costau eraill* sydd gyda balans o £30k sydd eto i'w wireddu ac *Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes gan leihau cefnogaeth i dimau oddi fewn i'r Adran ac i'r Adran Plant* (£49k).
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,318,908	2,318,908	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.

ATODIAD 2

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2023/24 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2023/24 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £	*nifer*	Cynlluniau sydd efo rhai risgiau i gyflawni £	*nifer*	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Priffyrdd a Pheirianneg	5,928,910	5,893,910	35,000	*1*	-		Mae'r cynllun *Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont* (£35k) wedi llithro ond mae'r Adran yn parhau i fod mewn trafodaethau efo Network Rail.
Ymgynghoriaeth	602,670	602,670	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	403,240	389,440	-		13,800	*1*	Mae llithriad ar y cynllun *Arbedion yng nghyllideb y Crwner* gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl ond sydd eto heb ddigwydd.
Tai ac Eiddo	843,230	843,230	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Is-gyfanswm	**33,088,038**	**32,532,308**	**164,360**	**4**	**391,370**	**7**	
Arbedion Rheolaethol	1,200,360	1,200,360	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
CYFANSWM	**34,288,398**	**33,732,668**	**164,360**	***4***	**391,370**	***7***	**Yn nhermau ariannol (£), mae 98% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2023/24 wedi eu gwireddu.**

ATODIAD 3

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2023/24 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2023/24 £ - *nifer*		Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - *nifer*		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - *nifer*		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ - *nifer*		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	852,990	*18*	852,990	*18*	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Ysgolion	1,146,600	*1*	607,698	*1*	-		538,902		Bu oediad ar ran o'r cynllun arbedion effeithlonrwdd ysgolion yn bennaf oherwydd fod ysgolion yn gweithio o fewn blwyddyn academaidd ac felly bydd y swm sy'n weddil yn gwireddu yn y flwyddyn ariannol nesaf.
Amgylchedd	319,190	*12*	226,320	*9*	4,370	*1*	88,500	*2*	Mae un cynllun sef *Gwella effeithlonrwydd defnydd o safleoedd trin/trosglwyddo gwastraff* gwerth £70k gyda rhai risgiau. Bu oediad ar un cynllun *gwerth* £18.5k ond yn symud yn ei flaen.
Cefnogaeth Gorfforaethol	275,250	*12*	267,690	*11*	7,560	*1*	-		Dim problem gwireddu'r un cynllun sydd ar drac i gyflawni'n amserol.
Cyllid	294,060	*7*	19,820	*2*	138,670	*3*	135,570	*2*	Mae risgiau o gyflawni arbedion y cynllun *Cynyddu targedau incwm Adrannol i fod yn gymesur â'r gwaith,* gwerth £64k. Bu oediad ar un cynllun gwerth £71.5k ond yn symud yn ei flaen.
Economi a Chymuned	310,770	*21*	237,250	*15*	57,030	*4*	16,490	*2*	Bu oediad ar ddau gynllun ond yn symud yn eu blaen.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	172,810	*10*	82,150	*5*	70,540	*3*	20,120	*2*	Bu oediad ar ddau gynllun ond yn symud yn eu blaen.
Plant a Chefnogi Teuluoedd	44,010	*4*	44,010	*4*	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth	215,940	*6*	175,940	*3*	35,000	*2*	5,000	*1*	Bu oediad ar un cynllun ond yn symud yn ei flaen.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	131,190	*7*	131,190	*7*	-		-		Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Tai ac Eiddo	499,120	*9*	356,820	*3*	112,800	*5*	29,500	*1*	Bu oediad ar un cynllun ond yn symud yn ei flaen.
Arbedion Rheolaethol	2,400,000	*1*	2,400,000	*1*	-		-		Yr un cynllun am y cyfnod wedi gwireddu.
CYFANSWM	**6,661,930**	***108***	**5,401,878**	***79***	**425,970**	***19***	**834,082**	***10***	**Yn nhermau ariannol (£), mae 81% o gynlluniau arbedion newydd 2023/24 eisoes wedi eu gwireddu a 6% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.**

ATODIAD 4

TABL 1
TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2024/25 YMLAEN FESUL ADRAN

Adran	2024/25 £	2025/26 £	Cyfanswm Arbedion 2024/25 a 2025/26 £	- *nifer*
Economi a Chymuned	15,000	-	15,000	*1*
Oedolion, Iechyd a Llesiant	-	200,000	200,000	*1*
CYFANSWM CYNLLUNIAU HANESYDDOL	**15,000**	**200,000**	**215,000**	***2***

TABL 2
TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2024/25 YMLAEN FESUL ADRAN

Adran	2024/25 £	2025/26 £	Cyfanswm Arbedion 2024/25 a 2025/26 £	- *nifer*
Addysg	931,380	-	931,380	*6*
Amgylchedd	562,870	450,000	1,012,870	*14*
Cefnogaeth Gorfforaethol	45,660	-	45,660	*3*
Cyllid	207,720	-	207,720	*6*
Economi a Chymuned	50,660	-	50,660	*6*
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,193,040	-	1,193,040	*5*
Plant a Chefnogi Teuluoedd	157,960	-	157,960	*2*
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth	390,000	-	390,000	*5*
Tai ac Eiddo	128,840	-	128,840	*3*
CYFANSWM CYNLLUNIAU NEWYDD	**3,668,130**	**450,000**	**4,118,130**	***50***

CYFANSWM	**3,683,130**	**650,000**	**4,333,130**	***52***

CYFARFOD:	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD:	**12 HYDREF 2023**
TEITL:	**CYLLIDEB REFENIW 2023/24 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2023**
PWRPAS:	**Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf**
GWEITHREDIAD:	**Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu'r penderfyniadau i'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**
AELOD CABINET:	**CYNGHORYDD IOAN THOMAS**
SWYDDOG CYSWLLT:	**FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL**

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

2. Cyflwynir yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Awst 2023) i'r Cabinet ar 7 Tachwedd 2023.

3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

4. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:
Adroddiad Cabinet 7/11/2023: Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Awst 2023

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Awst 2023
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	7 Tachwedd 2023

1. Penderfyniad a geisir

1.1 Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2023 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

1.2 Nodi bod rhagolygon gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd eleni. Manylir ar y rhesymau penodol sydd yn effeithio'r adrannau yn rhan 5 o'r adroddiad.

1.3 Yn wyneb y rhagolygon gorwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, nodi fod y Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith i egluro manylder cymhleth yn y darlun yng ngofal oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

1.4 Cymeradwyo trosglwyddiad o £3,275k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.

1.5 Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, argymhellir mai'r drefn bryd hynny o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwlch ariannol fydd defnyddio:
- yn gyntaf, defnyddio £3,800k o gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid
- gyda'r gweddill i'w gyllido o gronfa strategaeth ariannol y Cyngor.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Cyflwynir yr adroddiad ar yr adolygiad diweddaraf diwedd Awst o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2023/24, ac amlinellir grynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd naw o'r deg adran yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir gorwariant sylweddol ar gyfer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.

3.2 Yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Sefyllfa Arbedion

4.1 Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion, oedd amlycaf yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yn y maes Gwastraff. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r arbedion nad oedd yn cael eu gwiredd, penderfynwyd dileu gwerth £2 filiwn o gynlluniau arbedion drwy ddefnyddio darpariaeth risg arbedion i'w gyllido. Adroddir yma ar y sefyllfa ariannol yn dilyn dileu yr arbedion.

4.2 Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw fod £39 miliwn, sef 96% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

5. Adrannau'r Cyngor

5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu £6.6 miliwn o orwariant, sydd yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys nifer o achosion newydd a chostus llety cefnogol yn y gwasanaeth anabledd dysgu. Yng ngofal cymunedol, costau staffio uwch a chyfraddau oriau di-gyswllt yn uchel ac felly yn cael effaith negyddol ar yr incwm a adenillir. Tra fod ffioedd uwch gan ddarparwyr preifat ond lleihad mewn cyfraniadau preswylwyr yn faterion yng ngwasanaethau pobl hŷn. Mae defnydd cynyddol o staff asiantaeth mewn gwahanol feysydd hefyd yn cyfrannu at y gorwariant a adroddir.

5.2 Adran Addysg

Y tueddiad o bwysau cynyddol ar y ar y gyllideb tacsis a bysus ysgolion yn dod yn fwy amlwg eleni, gyda gorwariant o £1.5m yn cael ei ragweld. Mae'r maes cludiant eisoes wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, awgrymir fod yr angen

am waith pellach yn parhau fel bod modd ceisio lleihau y gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

5.3 Byw'n Iach

Dros y blynyddoedd diwethaf bu i effaith Covid amharu ar incwm Cwmni Byw'n Iach. Bu i Lywodraeth Cymru eu digolledu am y golled yn 2020/21 a 2021/22 o'u cronfa caledi. Yn 2022/23 rhoddodd y Cyngor £550k o gefnogaeth ariannol i Byw'n Iach i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi lleihau i £375k.

5.4 Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC

Rhagwelir gorwariant o bron i filiwn gan yr adran, gwelwyd leihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Yn bwrdeistrefol, cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, ond incwm yn uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

5.5 Adran Amgylchedd

Y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau.

5.6 Tai ac Eiddo

Y tueddiad o bwysau sylweddol ar wasanaethau llety dros dro digartrefedd yn parhau i fod yn ddwys iawn, eleni dyrannwyd £3m o bremiwm treth cyngor ynghyd â dyraniad un-tro £1.4m o ddarpariaeth covid corfforaethol i gyfarch y costau ychwanegol.

5.7 Corfforaethol

Tanwariant ar gorfforaethol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2023/24 a lleihad yn y niferoedd sydd wedi hawlio gostyngiad treth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Effaith y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog wedi arwain at dderbyniad llog gwerth £1.8 miliwn ychwanegol. Effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu fod modd osgoi benthyca yn allanol ac felly'r costau cyfalaf cysylltiedig. Ond tanwariant ar gyllidebau eraill yn cynorthwyo i leddfu'r pwysau ychwanegol a ragwelir o ran y cynnydd cenedlaethol i gyflogau gweithwyr Llywodraeth Leol sydd eto i'w gadarnhau.

6. Casgliad

6.1 Rhagwelir y bydd mwyafrif o'r adrannau yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn gyda gorwariant sylweddol mewn rhai meysydd. Felly, bydd rhaid gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido'r blwch ariannol o £5.9m a ragwelir am 2023/24.

7. Camau nesaf ac amserlen

7.1 Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 23 Ionawr 2024 yn dilyn adolygiad diwedd Tachwedd.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

Cyllideb Refeniw 2023/24 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Diwedd Awst			
	Cyllideb Arfaethedig 2023/24 £'000	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24 £ '000	Addasiadau a Argymhellir £'000	Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2023/24 £ '000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	**72,503**	**6,578**	**0**	**6,578**
Plant a Theuluoedd	**21,577**	**(35)**	**0**	**(35)**
Addysg	**108,995**	**757**	**0**	**757**
Economi a Chymuned	**5,938**	**78**	**0**	**78**
Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	**16,553**	**998**	**0**	**998**
Amgylchedd	**17,607**	**511**	**0**	**511**
Tai ac Eiddo	**11,412**	**61**	**0**	**61**
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	**2,688**	**37**	**0**	**37**
Cefnogaeth Gorfforaethol	**7,635**	**62**	**0**	**62**
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	**7,781**	**102**	**0**	**102**
Cyllidebau Corfforaethol *(Gwahaniaethau yn unig)*	*	**(3,275)**	**0**	**(3,275)**
Cyfansymiau (net)	**280,470**	**5,874**	**0**	**5,874**

CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Amcan Cyllideb 2023/24	Amcan Sefyllfa 2023/24	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Oedolion						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	21,114	22,114	1,000		1,000	514
Gofal Cartref	9,020	8,776	(244)		(244)	(3)
Eraill	856	1,548	692		692	981
	30,990	32,438	1,448	0	1,448	1,492
Gwasanaethau Anabledd Corff	3,174	2,834	(340)		(340)	(407)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	26,450	29,211	2,761		2,761	1,190
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	4,429	4,765	336		336	193
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	3,692	3,772	80		80	(184)
Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion	**68,735**	**73,020**	**4,285**	**0**	**4,285**	**2,284**
Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)						
Gofal Preswyl	0	285	285		285	336
Gofal Dydd	(5)	(118)	(113)		(113)	(186)
Gofal Cymunedol	138	1,817	1,679		1,679	1,828
Eraill	0	24	24		24	20
Cyfanswm Gwasanaethau Darparu	**133**	**2,008**	**1,875**	**0**	**1,875**	**1,998**

CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Amcan Cyllideb 2023/24	Amcan Sefyllfa 2023/24	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Eraill						
Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)*	3,635	4,053	418		418	123
Defnydd o Gronfeydd wrth gefn			0		0	(520)
Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23			0		0	(3,785)
Cyfanswm Gwasanaethau Eraill	**3,635**	**4,053**	**418**	**0**	**418**	**(4,182)**
Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant	**72,503**	**79,081**	**6,578**	**0**	**6,578**	**100**

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gwasanaethau Pobl Hŷn - ym mhreswyl a nyrsio costau ffioedd uwch gan ddarparwyr preifat ynghyd â chyfraniadau is gan breswylwyr yn dilyn newid i drothwyon cyfraniadau am ofal preswyl. Er bod lleihad yn y galw am ofal cartref (£244k) cynnydd anghymesur i'w weld ar daliadau uniongyrchol sydd yn gorwario £732k yn 'Eraill'.

Gwasanaethau Anabledd Corff - lleihad yn y galw am ofal cartref ond pwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - pwysau cynyddol a nifer o achosion newydd a chostus llety cefnogol yn gyfrifol am £2m o'r gorwariant, ond pwysau hefyd i'w weld ar breswyl a nyrsio, taliadau uniongyrchol a chostau tacsis ar gyfer gwasanaethau dydd.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl - mwy o alw am lety cefnogol a phwysau cynyddol ar preswyl a nyrsio gyda 4 achos newydd dwys.

Gwasanaethau Darparu - defnydd cynyddol o staff asiantaeth yn arwain at orwariant yn ngofal preswyl. Costau staffio uwch a chyfraddau oriau di-gyswllt yn uchel ac felly yn cael effaith negyddol ar yr incwm a adenillir yng ngofal cymunedol. Y ddarpariaeth Gofal Dydd wedi ei effeithio ac wedi ei leihau dros y blynyddoedd diwethaf, felly yn tanwario.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - swyddi uwchlaw'r strwythur a diffyg gwireddu arbedion.

Arbedion - yn dilyn anallu yr adran i wireddu cynlluniau arbedion mae gwerth £1,488k o arbedion wedi eu dileu. Mae'r gorwariant adrannol o £6.6m a ragwelir yn dilyn dileu yr arbedion.

Yn wyneb y rhagolygon gorwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, nodir fod y Prif Weithredwr eisoes wedi comisiynu gwaith i egluro manylder cymhleth yn y darlun yng ngofal Oedolion, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r materion a rhaglen glir i ymateb. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Plant a Theuluoedd	Amcan Cyllideb 2023/24	Amcan Sefyllfa 2023/24	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	561	534	(27)		(27)	(105)
Gweithredol	2,562	2,974	412		412	151
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	5,536	4,781	(755)		(755)	378
Maethu Drwy Asiant	1,791	1,460	(331)		(331)	(174)
Maethu Mewnol	2,856	2,574	(282)		(282)	(361)
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,905	2,052	147		147	40
	12,088	10,867	(1,221)	0	(1,221)	(117)
Ôl-16	1,475	1,375	(100)		(100)	36
Arbenigol/Derwen	2,336	3,043	707		707	480
Cyfiawnder Ieuenctid	274	244	(30)		(30)	(39)
Blynyddoedd Cynnar	151	157	6		6	(82)
Uned Datblygu'r Gweithlu	116	116	0		0	(132)
Eraill	2,090	2,232	142		142	(19)
Cyfraniad i Gronfa Gorwariant yr Adran	(76)		76		76	(97)
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	**21,577**	**21,542**	**(35)**	**0**	**(35)**	**76**

Plant a Theuluoedd

Gweithredol - pwysau ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw y gyllideb gweithwyr maes yn dilyn nifer o gyfnodau mamolaeth.

Lleoliadau - lleihad yn y pwysau ar Leoliadau All-Sirol eleni gyda'r nifer cyfartalog yn 24.2, o'i gymharu â 25.7 ar gyfer 2022/23, gyda'r gost oddeutu £219k yr achos. Niferoedd cyfartalog Maethu drwy Asiant a Maethu Mewnol yn gyson efo niferoedd 2022/23 ond gan fod yna nifer o geiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid yn derbyn gwasanaeth, derbyniad incwm gan y Swyddfa Gartref ar eu cyfer yn arwain at danwariant. Pwysau ar y gyllideb gweithwyr cefnogol a'r Tim Lleoliadau.

Ôl-16 - lleihad yn y pwysau ar y ddarpariaeth yn dilyn i becynnau dwys ddod i ben yn ddiweddar.

Arbenigol/Derwen – y tueddiad gorwariant cynyddol yn parhau gan fod cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol. Newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda mwy o bwysau ar daliadau uniongyrchol sydd yn gyfrifol am £108k o'r gorwariant. Rhagwelir gorwariant o £85k ar yr Uned Egwyl Fer oherwydd costau staff a lleihad mewn incwm yn dilyn i Gyngor Môn sefydlu darpariaeth eu hunain yn hytrach na dod i Wynedd am y gwasanaeth.

Eraill - cyfuniad o orwariant ar staffio, ffioedd gwasanaethau arbennigol ac ar gyfraniadau gwasanaethau ar y cyd.

Yn dilyn gorwariant o £76k gan yr Adran yn 2022/23, bwriad yr adran yw defnyddio £76k o'r tanwariant a ragwelir eleni i ddileu y gronfa gorwariant.

CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Addysg	Amcan Cyllideb 2023/24	Amcan Sefyllfa 2023/24	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	90,242	90,242	0		0	0
Ysgolion Datganoledig - Costau Ychwanegol Chwyddiant Staff a Thrydan Uwchlaw'r Gyllideb			0		0	1,304
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(1,391)	(1,592)	(201)		(201)	(61)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	6,286	7,746	1,460		1,460	551
Gwasanaeth Atodol	1,314	1,311	(3)		(3)	(200)
Eraill	3,579	3,552	(27)		(27)	(38)
	11,179	12,609	1,430	0	1,430	313
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,499	2,277	(222)		(222)	(259)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	5,241	5,265	24		24	(89)
Gwasanaeth Ieuenctid	984	951	(33)		(33)	
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran	241		(241)		(241)	
Defnydd o falansau ysgolion					0	(1,304)
Cyfanswm Addysg	**108,995**	**109,752**	**757**	**0**	**757**	**(96)**

Addysg

Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion - cyfuniad o dderbyniad incwm a chwtogi ar wariant.

Cludiant - rhagolygon gorwariant o £626k ar dacsis ysgolion. Yn dilyn ail-dendro cytundebau bysus yn ddiweddar rhagwelir gorwariant o £833k erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, awgrymir fod yr angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd ceisio lleihau y gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - costau staff uwch a diffyg incwm ar yr elfen gofal o'r clybiau brecwast yn gorwario £116k ond trosiant staff a derbyniad incwm a grant yn arlwyaeth yn diddymu'r gorwariant.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - tanwariant ar nifer o gyllidebau amrywiol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra bod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £126k.

Gwasanaeth Ieuenctid - tanwariant ar gostau staff.

Er mwyn lleihau y gorwariant a adroddir bwriad yr adran yw defnyddio eu cronfa tanwariant o £241k yn ei gyfanrwydd eleni.

CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Economi a Chymuned	Amcan Cyllideb 2023/24	Amcan Sefyllfa 2023/24	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	450	455	5		5	(8)
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	473	434	(39)		(39)	(40)
Morwrol a Pharciau Gwledig	(186)	(213)	(27)		(27)	21
Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill	2,247	2,317	70		70	608
Rhaglenni Datblygu Economaidd	(36)	(36)	0		0	14
Marchnata a Digwyddiadau	293	293	0		0	3
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,755	1,712	(43)		(43)	(77)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	942	1,054	112		112	61
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran			0		0	(32)
Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23			0		0	(550)
Cyfanswm Economi a Chymuned	**5,938**	**6,016**	**78**	**0**	**78**	**0**

Economi a Chymuned

Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau - tanwariant ar gostau staff ac ar amrywiol gyllidebau.

Morwrol a Pharciau Gwledig - traethau a Hafan, Pwllheli yn rhagori ar dargedau incwm

Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf bu i effaith Covid amharu ar incwm y cwmni. Bu i Lywodraeth Cymru eu digolledu am y golled yn 2020/21 a 2021/22 o'u cronfa caledi. Yn 2022/23 rhoddodd y Cyngor £550k o gefnogaeth ariannol i Byw'n Iach i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi lleihau i £375k.

Ymhellach, gorwariant o £70k ar gostau rhedeg eiddo Byw'n Iach.

Llyfrgelloedd Gwynedd - swydd wag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - gorwariant yn bennaf gan fod diffyg incwm yn faterion yn Neuadd Dwyfor ac yn Storiel.

CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Amcan Cyllideb 2023/24	Amcan Sefyllfa 2023/24	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	11,428	11,935	507		507	954
Gwasanaethau Peirianneg	397	392	(5)		(5)	117
Gwasanaethau Bwrdeistrefol	5,093	5,573	480		480	426
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(365)	(349)	16		16	(73)
Defnydd o Gronfeydd wrth gefn			0		0	(300)
Cyfraniad gan Ymgynghoriaeth			0		0	(73)
Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23			0		0	(2,434)
Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	**16,553**	**17,551**	**998**	**0**	**998**	**(1,383)**

Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - llai o waith yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol ac felly yn cael effaith negyddol ar incwm.

Gwasanaethau Peirianneg - tanwariant ar amrywiol benawdau.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau, pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, ond incwm yn uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Ymgynghoriaeth Gwynedd - rhagolygon o ddiffyg incwm gan sefydliadau allanol megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru ar wasanaethau ffyrdd a pheirianneg.

CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Amgylchedd	Amcan Cyllideb 2023/24	Amcan Sefyllfa 2023/24	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	770	753	(17)		(17)	58
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	510	575	65		65	(128)
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	288	28	(260)		(260)	(380)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(2,043)	(1,901)	142		142	334
Cludiant Integredig	2,047	2,426	379		379	375
	292	553	261	0	261	329
Cefn Gwlad a Mynediad	671	672	1		1	(1)
Gwarchod y Cyhoedd	1,774	1,578	(196)		(196)	(252)
Gwastraff	13,535	13,987	452		452	1,410
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran	55		(55)		(55)	
Cyfanswm Amgylchedd	**17,607**	**18,118**	**511**	**0**	**511**	**1,416**

Amgylchedd

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - diffyg incwm yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau staff.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - diffyg incwm parcio o £227k sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau eraill.

Cludiant Integredig - gorwariant o £485k ar gytundebau bysus cyhoeddus, ond incwm uwch a thanwariant amrywiol yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Awgrymir y dylid parhau efo'r adolygiad i'r ddarpariaeth Cludiant.

Gwarchod y Cyhoedd - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys samplau bwyd a dŵr, gwasanaethau a chyflenwadau.

Gwastraff - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau. Gorwariant ar gostau trin defnyddiau ailgylchu ond yr incwm ar werthiant defnyddiau ailgylchu yn rhagori'r gyllideb. Lleihad mewn gwastraff gweddilliol yn golygu fod y costau cysylltiedig yn is.

Yn dilyn y tueddiad gorwariant cynyddol yn y maes gwastraff dros y blynyddoedd diwethaf, bu i adolygiad allanol gael ei gomisiynu gan WRAP Cymru. Mae'r adroddiad a'r argymhellion ar ffyrdd i wella'r gwasanaeth eisoes dan ystyriaeth gan yr adran gyda chamau i ymateb i'r sefyllfa yn cael eu gweithredu.

Er mwyn lleihau y gorwariant a adroddir bwriad yr adran yw defnyddio eu cronfa tanwariant o £55k eleni.

CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Tai ac Eiddo	Amcan Cyllideb 2023/24	Amcan Sefyllfa 2023/24	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	344	314	(30)		(30)	(32)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	4,968	6,523	1,555		1,555	2,754
Tai Sector Breifat	387	429	42		42	(46)
Eraill	240	157	(83)		(83)	(237)
	5,595	7,109	1,514	0	1,514	2,471
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	4,104	4,083	(21)		(21)	49
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	(31)	(33)	(2)		(2)	(6)
	4,073	4,050	(23)	0	(23)	43
Darpariaeth Un-tro Covid Corfforaethol	1,400		(1,400)		(1,400)	
Addasiad Cau Cyfrifon 2022/23			0		0	(2,482)
Cyfanswm Tai ac Eiddo	**11,412**	**11,473**	**61**	**0**	**61**	**0**

Tai ac Eiddo

Digartrefedd - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn parhau i fod yn ddwys iawn gyda chostau cyfartalog uwch gan fod argaeledd llety dros dro yn y sir wedi cyrraedd ei gapasiti. Eleni dyrannwyd cyllideb ychwanegol o £3m o bremiwm treth cyngor i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol.

Tai Sector Breifat - diffyg yn yr incwm grant cyfleusterau i'r anabl.

Gwasanaethau Tai, Eraill - tanwariant ar gostau staff a chwtogi ar wariant.

Gwasanaethau Eiddo - swyddi gwag yn Eiddo sydd yn lleddfu'r gorwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ac ar gostau cerbydau yn Difa Pla.

Darpariaeth un-tro Covid Corfforaethol - dyraniad o £1.4m un-tro i gyfarch y costau ychwanegol yn ymwneud â Digartrefedd.

CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adrannau Canolog	Amcan Cyllideb 2023/24	Amcan Sefyllfa 2023/24	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,688	2,725	37		37	(17)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	7,781	7,883	102		102	(10)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,635	7,697	62		62	(16)
Cyfanswm Adrannau Canolog	**18,104**	**18,305**	**201**	**0**	**201**	**(43)**

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - pwysau ychwanegol o £62k ar elfen Gwynedd o gyllideb y Crwner, penodiadau diweddar yn Cyfreithiol wedi arwain at lai o ddefnydd o gyfreithwyr asiantaeth ac felly rhagwelir tanwariant o (£17k).

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - costau bancio yn gorwario £115k wrth i fwy o daliadau gan gwsmeriaid gael eu gwneud trwy ddefnyddio cardiau ac felly'r ffioedd banc cysylltiedig yn daladwy gan y Cyngor. Costau un-tro pellach o £50k i brynu offer i gydymffurfio â gofynion safonau diolgelwch data y diwydiant cardiau talu ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor. Y gorwariant yn cael ei leihau gan swyddi gwag,

Cefnogaeth Gorfforaethol - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y sefyllfa gan gynnwys mân orwariant mewn rhai meysydd, pwysau cynyddol ar y gyllideb cwnsela gyda gorwariant o £36k yn cael ei ragweld. Rhagolygon o ddiffyg incwm o £22k yn yr Argraffdy.

CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Amcan Cyllideb 2023/24	Amcan Sefyllfa 2023/24	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2023/24**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2023/24**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2022/23
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor	*	*	(151)		(151)	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(984)		(984)	0
Costau Cyfalaf	*	*	(200)		(200)	0
Derbyniad Llog	*	*	(1,833)		(1,833)	0
Pwysau Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb	*	*	1,495		1,495	0
Darpariaeth Arbedion	*	*	0		0	0
Eraill	*	*	(1,602)		(1,602)	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	**(3,275)**	**0**	**(3,275)**	**0**

Corfforaethol

Treth Cyngor - lleihad yn y rhagamcanion yn dilyn i nifer o ail gartrefi premiwm ostwng, gyda 166 yn llai erbyn Awst o'i gymharu â diwedd Mawrth 2023. Ymhellach, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 67 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (452 yn 2022/23, 469 yn 2021/22, 506 yn 2020/21). Yn 2023/24 mae £6m o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £3m pellach ar gyfer y maes Digartrefedd.

Gostyngiadau Treth Cyngor - gosod amcangyfrifon darbodus a lleihad pellach yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Costau Cyfalaf - effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol sydd yn golygu fod modd osgoi benthyca yn allanol, felly yn osgoi costau cysylltiedig.

Derbyniad Llog - y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog yn rhagori'r gyllideb ddisgwyliedig.

Pwysau Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb - unwaith eto eleni mae oediad mewn cadarnhau y cynnydd cenedlaethol i gyflogau gweithwyr Llywodraeth Leol. Rhagwelir y bydd y cynnydd uwchlaw'r gyllideb a ystyriwyd i fod yn ddarbodus ar y pryd.

Darpariaeth Arbedion - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud i'r pwrpas sydd wedi ei ddyrannu yn llwyr i ddileu arbedion problemus.

Eraill - y pwysau ar rai cyllidebau gan gynnwys y gyllideb trydan ddim cymaint a'r hyn a ddarparwyd.

Argymhellir fod y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£3,275k) yn mynd i'r Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i gyllido'r bwlch ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor.

Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd hyd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, **argymhellir** mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwlch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:
- yn gyntaf, £3,800k o'r gronfa adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol.
- gyda'r gweddill yn cael ei gyllido o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.

CYFARFOD:	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD:	**12 HYDREF 2023**
TEITL:	**RHAGLEN GYFALAF 2023/24 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2023**
PWRPAS:	**Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf**
GWEITHREDIAD:	**Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau i'r Cabinet**
AELOD CABINET:	**CYNGHORYDD IOAN THOMAS**
SWYDDOG CYSWLLT:	**FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL**

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

2. Cyflwynir yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2023/24 - Adolygiad Diwedd Awst 2023) i'r Cabinet ar 7 Tachwedd 2023 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

4. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau i'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:
Adroddiad Cabinet 7/11/2023: Rhaglen Gyfalaf 2023/24 - Adolygiad Diwedd Awst 2023

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Rhaglen Gyfalaf 2023/24 – Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2023)
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol
Dyddiad y cyfarfod:	7 Tachwedd 2023

1. Penderfyniad a Geisir:

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2023) o'r rhaglen gyfalaf.
- Nodi'r gwariant o £11,457,000 ar y rhaglen gyfalaf hyd at mis 5 2023/24
- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad, sef:
  - defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £17,421,000 o 2022/23
  - lleihad o £1,836,000 mewn defnydd o fenthyca
  - cynnydd o £61,991,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - lleihad o £9,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - cynnydd o £991,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
  - cynnydd o £194,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2023/24 – 2025/26.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2023/24. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3.2.2 a rhan 3.2.3 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 1:

- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £178.572m am y 3 blynedd 2023/24 – 2025/26.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £78.752m ers y gyllideb agoriadol, gyda £17.421m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2022/23 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r llithriadau yn adolygiad diwedd blwyddyn ar 13 Mehefin 2023).
- Rhan 3.2.4: Manylder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.2.1 Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £107.3m yn 2023/24 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £42.8m (40%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda £11.5m sef 11% o'r gyllideb wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst eleni, o'i gymharu â 11% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 16% ddwy flynedd yn ôl.

- Mae £12.5m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2023/24 i 2024/25 a 2025/26, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2023/24 i 2025/26

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2023.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB	ADDASIAD LLITHRIAD	NEWIDIADAU ERAILL
	2023/24	2024/25	2025/26	CYFANSWM			
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg	21,167	9,593	40	30,800	9,706	7,249	2,457
Amgylchedd	7,473	3,181	775	11,429	4,200	1,235	2,965
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-	-	-	-	-	-
Cyllid	2,189	618	498	3,305	447	197	250
Economi a Chymuned	30,965	28,025	-	58,990	57,606	711	56,895
Tai ac Eiddo	25,791	10,181	7,130	43,102	979	2,961	(1,982)
Oedolion, Iechyd a Llesiant	4,087	2,838	-	6,925	2,601	2,578	23
Plant a Chefnogi Teuluoedd	355	200	-	555	305	466	(161)
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth	11,659	3,587	2,011	17,257	4,850	1,901	2,949
Corfforaethol	3,586	2,123	500	6,209	(1,942)	123	(2,065)
CYFANSWM	**107,272**	**60,346**	**10,954**	**178,572**	**78,752**	**17,421**	**61,331**

3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £78.752m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB	ADDASIAD LLITHRIAD	NEWIDIADAU ERAILL
	2023/24	2024/25	2025/26	CYFANSWM			
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyca gyda chefnogaeth	8,233	8,233	6,610	23,076	(1,834)	-	(1,834)
Benthyca Arall	10,340	3,137	2,880	16,357	198	200	(2)
Grantiau a Chyfraniadau	42,752	34,975	-	77,727	65,274	3,283	61,991
Derbyniadau Cyfalaf	246	-	-	246	52	61	(9)
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	2,376	79	-	2,455	1,304	313	991
Cronfa Cyfalaf	19,116	3,793	40	22,949	9,515	9,515	-
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	24,209	10,129	1,424	35,762	4,243	4,049	194
CYFANSWM	**107,272**	**60,346**	**10,954**	**178,572**	**78,752**	**17,421**	**61,331**

3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £62,080k a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £61,981k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £36,888k Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru
- £16,725k Grant Cronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru
- £3,004k Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru
- £1,260k Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Defnydd Cymunedol Ysgolion 2023-2025
- £1,136k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig
- £894k Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2023-24
- £805k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir
- £470k Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd – cynlluniau 20 milltir yr awr

- £348k Amrywiol grantiau tuag at gynlluniau yn y maes Adfywio, Morwrol a Pharciau Gwledig
- £203k Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau
- £100k Grant Her Ysgolion Cynaliadwy – Ysgol Bontnewydd

3.3 Camau nesaf

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad A - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad B - Manylion Ail-broffilio

Atodiad C - Gwariant 5 mis cyntaf 2023/24

Rhestr Dogfennau Cefndir:

Cyllideb 2023-2024 : Cyllidebau Blynyddol (llyw.cymru)

ATODIAD A

Manylion y Prif Newidiadau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers y gyllideb wreiddiol:

	2023/24 £'000	2024/25-2025/26 £'000
Benthyca		
• Cywiro'r dybiaeth bod arian tuag at Dadgarboneiddio yn rhan o'r setliad *(Corfforaethol).*	(917)	(917)
Grantiau a Chyfraniadau		
• Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau e.e. Ysgol Chwilog *(Adran Addysg).*	203	
• Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2023-2024 *(Adran Addysg).*	894	
• Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Defnydd Cymunedol Ysgolion 2023-2025 *(Adran Addysg).*	455	805
• Rhan cychwynnol o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy tuag at Ysgol Bontnewydd *(Adran Addysg).*	100	
• Amrywiol grantiau tuag at gynlluniau yn y maes Adfywio, Morwrol a Pharciau Gwledig *(Adran Economi a Chymuned).*	348	
• Grant Cronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru *(Adran Economi a Chymuned).*	5,106	11,619
• Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru *(Adran Economi a Chymuned).*	20,482	16,406
• Grant cyfalaf Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Theuluoedd).*	54	

• Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).*	19	
• Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir (*Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).*	805	
• Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau 20 milltir yr awr *(Adran Amgylchedd).*	470	
• Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).*	3,004	
• Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).*	737	399
• Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwefru cerbydau trydan *(Adran Amgylchedd).*	51	
• Grant Llywodraeth Cymru tuag at isadeiledd sbwriel *(Adran Amgylchedd).*	79	
• Addasu Grant Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru tuag at Safle Sipsiwn Llandygai – y cynllun wedi dod i ben *(Adran Tai ac Eiddo).*	(99)	
• Grant Cynllun Lesu Cymru gan Lywodraeth Cymru yn y maes Tai *(Adran Tai ac Eiddo).*	44	
Derbyniadau Cyfalaf		
• Addasu cyfraniadau tuag at amrywiol gynlluniau yr Adran Economi gan gynnwys Ail wynebu Maes Parcio Y Glyn Llanberis a Neuadd Dwyfor *(Adran Economi a Chymuned).*	(8)	
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol		
• Cynyddu'r angen am gyfraniad refeniw'r Adran Tai ac Eiddo tuag at gynlluniau Cynnal a Chadw sydd bellach yn gyfalaf o ran natur *(Adran Tai ac Eiddo).*	1,000	

Cronfa Cyfalaf	
• Trosglwyddo adnoddau cyfalaf glustnodwyd tuag at Ganolfan Integredig Maesgeirchen sydd heb ei ddefnyddio yn ôl - i'w ddyrannu eto yn y man *(Adran Plant a Theuluoedd; Corfforaethol).*	(216) 216
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	
• Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned).*	31
• Addasu ariannu cynllun Goleuadau Stryd – cynllun wedi ei gwblhau *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).*	(189)
• Adnewyddu Cerbydau ac Offer *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Adran Amgylchedd).*	102
• Adnewyddu Offer Technoleg Gwybodaeth *(Adran Cyllid).*	250

ATODIAD B

Manylion Ail-broffilio'r Gyllideb

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2023/24 £'000	2024/25 - 2025/26 £'000
Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) *(Adran Addysg)*	(5,743)	5,743
Cynlluniau Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)*	150	(150)
Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen *(Adran Plant a Theuluoedd)*	(200)	200
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)*	(1,500)	1,500
Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)*	(1,338)	1,338
Rhaglen Atal Dirywiad Ffyrdd *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)*	1,000	(1,000)
Cynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)*	(933)	933
Cynlluniau Trafnidiaeth, Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig *(Adran Amgylchedd)*	(309)	309
Meysydd Parcio - Ail wynebu, Pwyntiau Gwefru ayyb *(Adran Amgylchedd)*	(148)	148
Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)*	(48)	48
Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl a Swyddfeydd *(Adran Tai ac Eiddo)*	(143)	143
Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)*	(2,750)	2,750
Cynlluniau Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)*	(580)	580

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

ATODIAD C

Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2023/24

CRYNODEB	RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2023/24 £'000	GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2023 £'000
Addysg	21,167	3,694
Amgylchedd	7,473	636
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	2,189	74
Economi a Chymuned	30,965	2,117
Tai ac Eiddo	25,791	2,987
Oedolion, Iechyd a Llesiant	4,087	92
Plant a Chefnogi Teuluoedd	355	63
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth	11,659	1,794
Corfforaethol	3,586	-
CYFANSWM	**107,272**	**11,457**

Noder:
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (11%) yn debyg i’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2022/23 yn 11%), ac yn is na dwy flynedd yn ôl (16% yn 2021/22).

Eitem 10

CYFARFOD:	**PWYLLGOR LLYWODRAETH AC ARCHWILIO**
DYDDIAD:	**12 HYDREF 2023**
TEITL:	**DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS**
PWRPAS:	**Mae Cod Ymarfer CIPFA yn mynnu bod y dangosyddion darbodus yn cael eu hadrodd bob chwarter**
ARGYMHELLIAD:	**DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH**
AWDUR:	**DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI**

---

1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA) Mae'r adroddiad chwarterol newydd hwn yn rhoi diweddariad ychwanegol ac yn cynnwys y gofyniad newydd yng Nghod 2021, sy'n orfodol o 1 Ebrill 2023, o ddarparu adroddiadau chwarterol ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn y Cyngor Llawn ar 2 Mawrth 2023. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. . Felly mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn ganolog i Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

2. Cefndir Economaidd

O ddechrau'r chwarter hyd at fis Mai roedd hi'n edrych fel bod cyfraddau polisi ariannol byd-eang brig yn y golwg wrth i chwyddiant barhau i leddfu a banciau canolog yn troi'n fwy dof eu naws. Dim ond ychydig wythnosau’n ddiweddarach, newidiodd data chwyddiant cryfach a mwy cyson, yn enwedig yn y DU, y darlun.

Nid oedd sefyllfa’r DU yn newyddion i’w groesawu i Fanc Lloegr. Roedd twf GDP yn wan, wedi'i gadarnhau ar 0.1% yn Ch1, er bod data GDP misol mwy diweddar wedi bod ychydig yn well. Mae'r farchnad dai wedi arafu, mae galw defnyddwyr yn wan ond yn gwella i bob golwg er gwaethaf cyfraddau llog uwch, ac mae'r galw am lafur wedi parhau'n gryf, gydag ôl-effeithiau ar gyfer twf cyflogau sy'n cyflymu.

Dangosodd data mis Ebrill fod y gyfradd ddiweithdra wedi cynyddu i 3.8% tra bod y gyfradd cyflogaeth wedi codi i 76.0%. Roedd twf cyflog yn 6.5% ar gyfer cyfanswm cyflog (gan gynnwys taliadau bonws) a 7.2% ar gyfer tâl rheolaidd, y gyfradd twf fwyaf o'r olaf y tu allan i bandemig Covid. Ar ôl eu haddasu ar gyfer chwyddiant, fodd bynnag, roedd y twf yng nghyfanswm cyflogau a chyflogau rheolaidd yn parhau'n negyddol.

Gostyngodd chwyddiant o'i uchafbwynt o 11.1% a gyrhaeddwyd ym mis Hydref 2022, ond roedd y prif CPI blynyddol ym mis Mai 2023 yn uwch na'r rhagolygon consensws ar 8.7% (disgwylir 8.4%), wedi'i ysgogi'n bennaf gan chwyddiant gwasanaethau, tra bod y mesur blynyddol o chwyddiant craidd wedi codi i 7.1% o 6.8%.

Ar ôl cynnydd sydyn yn nisgwyliadau cyfraddau llog, gyda goblygiadau amlwg yn ddifrifol i farchnadoedd morgeisi oherwydd chwyddiant uwch a data cyflogau, ail-gyflymodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr y tynhau polisi ariannol dros y cyfnod gyda chynnydd o 0.25% ym mis Mai i godiad o 0.5% ym mis Mehefin, gan gynyddu y Gyfradd Banc i 5.0%. Yn y ddau gyfarfod roedd y bleidlais yn 7-2 o blaid cynyddu cyfraddau, gyda'r ddau anghydffurfiwr yn ffafrio cadw'r cyfraddau yn ôl.

Roedd disgwyliadau cyfraddau llog wedi prisio mewn codiadau pellach mewn cyfraddau polisi. Diwygiodd Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, ei ragolwg i ragweld 0.5% pellach o dynhau ariannol i fynd â Chyfradd Banc i 5.5%. Y risgiau, fodd bynnag, yw y gallai cyfraddau fod yn uwch; mae marchnadoedd ariannol yn rhagweld cyfraddau llog polisi uwch na 6%.

Gyda llawer o forgeisi ar gyfraddau sefydlog isel bellach yn cael eu hailosod yn systematig dros y 12-24 mis nesaf ar gyfraddau uwch ar ddiwedd eu cyfnod cyfradd sefydlog, bu effaith arafedig y porthiant polisi ariannol ar incwm gwario aelwydydd. . Disgwylir i'r arafu economaidd ddatblygu dros amser ac felly, er bod mesur GfK o hyder defnyddwyr yn codi i -24 ym mis Mehefin, mae'n debygol y bydd hyder yn cael ei effeithio'n negyddol ar ryw adeg. Contractiodd y sector gweithgynhyrchu yn ystod y chwarter yn ôl data arolwg, a fydd yn y pen draw yn bwydo i mewn i wasanaethau, y mae eu ehangiad yn arafu.

Er i Gronfa Ffederal yr Unol Daleithiau gynyddu ei chyfradd llog allweddol i 5.00-5.25% dros y cyfnod, parhaodd gweithgaredd yn y rhanbarth i herio tynhau ariannol, yn enwedig mewn marchnadoedd llafur sydd hyd yn hyn wedi ymddangos yn gadarn, gan gefnogi honiadau'r Ffed o ddau godiad cyfradd arall ar ôl seibiant ym mis Mehefin. Parhaodd chwyddiant blynyddol yr UD i leddfu, gan ostwng o 4.9% ym mis Ebrill i 4.0% ym mis Mai, y lefel isaf ers mis Mawrth 2021. Roedd twf CMC yr Unol Daleithiau ar 2% yn flynyddol yn chwarter calendr cyntaf 2023 hefyd yn sylweddol gryfach na'r disgwyl yn erbyn yr amcangyfrif cychwynnol o 1.3%

Ym mharth yr ewro, roedd y darlun ychydig yn wahanol. Cynhaliodd Banc Canolog Ewrop ei naws *hawkish* a chynyddodd ei cyfraddau blaendal allweddol, cyfraddau ail-ariannu, a chyfraddau llog benthyca ymylol i 3.50%, 4.00% a 4.25% yn y drefn honno. Roedd arwyddion o weithgarwch yn gwanhau, yn enwedig yn yr Almaen ble mae'r sector cynhyrchu wedi cael ergyd gan brisiau ynni uchel a galw byd-eang gwannach. Fodd bynnag, arhosodd chwyddiant yn ludiog, gostyngodd CPI pennawd blynyddol i 5.5% ym mis Mehefin tra cododd chwyddiant craidd blynyddol i 5.4% o 5.3%, sy'n golygu nad yw'r ECB yn debygol o atal tynhau ariannol.

3. Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

Ar 30 Mehefin 2023 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £55m yn deillio o'i weithgareddau refeniw a chyfalaf.

Parhaodd y Cyngor ei strategaeth o gadw benthyciadau a buddsoddiadau o dan eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

	31.3.23 Balans £m	**Symudiad £m**	**30.6.23 Balans £m**
Benthyca tymor hir	100.9	(1.4)	99.5
Benthyca tymor hir	1.1	1.2	2.3
PFI	1.2	(0.0)	1.2
Cyfanswm benthyca	**103.2**	**(0.2)**	**103.0**
Buddsoddiadau tymor byr	(89.9)	(8.6)	(98.5)
Arian a chyfwerthoedd arian	(62.8)	3.8	(59.0)
Cyfanswm buddsoddiadau	**(152.7)**	**(4.8)**	**(157.5)**
Benthyciadau net/ (buddsoddiadau)	**(49.5)**	**(5.0)**	**(54.5)**

Ni wnaed unrhyw fenthyca tymor hir newydd yn 2022/23, gyda benthyciadau presennol yn aeddfedu heb eu hadnewyddu. Galluogodd y strategaeth hon i'r Cyngor leihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm buddsoddi a gollwyd) a lleihau risg trysorlys cyffredinol y Cyngor.

4. Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys

Fel sy'n ofynnol gan God Rheolaeth Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheolaeth trysorlys.

i) **Meincnod ymrwymiad:** Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu gwir fenthyciadau presennol y Cyngor yn erbyn meincnod ymrwymiad sydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod ymrwymiad yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'n cynrychioli amcangyfrif

o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar yr isafswm lefel o £10m sydd ei angen i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

	31.3.23 Gwir	**31.3.24 Amcan**	**31.3.25 Amcan**	**31.3.26 Amcan**
CFR Benthyciadau	171.0	177.5	178.9	179.9
Llai: Adnoddau mantolen	(129.7)	(177.1)	(103.6)	(90.2)
Gofyniad benthyciadau net	41.3	60.4	75.3	89.7
Ychwanegu: Gofynion hylifedd	10.0	10.0	10.0	10.0
Meincnod ymrwymiad	**51.3**	**70.4**	**85.3**	**99.7**
Benthyciadau presennol	**102.0**	**98.3**	**92.7**	**88.7**

Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fenthyca uwchlaw ei feincnod atebolrwydd hyd at 2025. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, ac mae llif arian hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd yr arian.

Yn dilyn ymlaen o'r rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod ymrwymiadau hirdymor yn rhagdybio na chaiff unrhyw wariant cyfalaf newydd ei ariannu drwy fenthyca a isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol y Cyngor.



Mae'r siart yn dangos nad oes angen benthyca yn y tymor hir yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, ond efallai yn y tymor byr yn y dyfodol agos.

ii) **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

	30.6.23 Gwir	**Terfyn Uchaf**	**Terfyn Isaf**	**Cydymffurfio**
Dan 12 mis	2.4%	25%	0%	✓
12 mis ac o fewn 24 mis	5.5%	25%	0%	✓
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	9.5%	50%	0%	✓
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	9.1%	75%	0%	✓
10 mlynedd a mwy	73.5%	100%	0%	✓

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

iii) **Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys tymor hir:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Mae'r terfynau darbodus ar y terfynau rheolaeth trysorlys hirdymor yn:

	2023/24	**2024/25**	**2025/26**	**Dim dyddiad penodol**
Gwir brifswm wedi'i fuddsoddi y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£15m	£0	£0	£0
Terfyn ar y prif fuddsoddiad y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£40m	£20m	£20m	£20m
Cydymffurfio	✓	✓	✓	✓

Dangosyddion ychwanegol
Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwyso gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Cyfrifir hyn drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

	30.6.23 Gwir	**Targed 2023/24**	**Cydymffurfio**
Sgôr credyd cyfartalog y portffolio	4.71	Sgôr o 6 neu is	✓

Hylifedd: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

	30.6.23 Gwir	Targed 2023/24	Cydymffurfio
Cyfanswm arian parod ar gael o fewn 3 mis	£134m	£10m	✓

Datguddiad Cyfraddau Llog: Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwymp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

	30.6.23 Gwir	Terfyn 2023/24	Cydymffurfio
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn codiad 1% yng nghyfraddau llog	£1,314,010	£1,039,420	X
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda chwymp o 1% yng nghyfraddau llog	£1,314,010	£1,039,420	X

Ni chydymffurfiwyd â'r dangosydd hwn oherwydd gosodwyd y dangosydd pan oedd cyfraddau llog yn isel, ond mae lefelau llog wedi codi'n sylweddol yn y flwyddyn heb rybudd ac felly mae'n rhesymol bod y symiau yn uwch na'r terfyn.

5. Argymhelliad

I dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Eitem 11

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	12fed Hydref 2023
TEITL YR EITEM	Adroddiadau Archwilio Cymru
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – 'Adolygiad o effeithiolrwydd craffu – Cyngor Gwynedd'
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.
AWDUR	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru

1. CEFNDIR

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

1.3. Mae copi o adroddiad 'Adolygiad o effeithiolrwydd craffu – Cyngor Gwynedd' wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1** gyda dogfen ymateb rheolwyr wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad. Bydd Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith yn mynychu'r cyfarfod i osod cyd-destun ac ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen**.**

Archwilio Cymru
Audit Wales

Adolygiad o effeithiolrwydd craffu – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3537A2023

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd eu swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Pe byddai cais am wybodaeth yn dod i law y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon cael eu hanfon at Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Mae’r Cyngor wedi adolygu a chyflwyno newidiadau i drefniadau trosolwg a chraffu, a bod statws uwch i graffu o fewn y broses ddemocrataidd. Er hynny, mae cyfleoedd i gryfhau cyfraniad, statws a thraweffaith craffu ymhellach.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Mae’r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar y cyfan i alluogi craffu i weithredu'n effeithiol ond mae cyfleoedd i gryfhau hyfforddiant sydd yn arfogi aelodau i ddwyn y Cabinet i gyfrif 7

Mae’r Cyngor wedi datblygu meini prawf i lunio rhaglen flynyddol eitemau craffu, ond mae cyfle i gryfhau’r aliniad gyda rhaglen waith y Cabinet a Chynllun y Cyngor 8

Er bod enghreifftiau lle mae mewnbwn craffu wedi cyfrannu at benderfyniadau’r Cabinet, nid oes trefn ffurfiol ar gyfer olrhain effaith craffu. Nid yw’r pwyllgorau craffu cyhoeddus yn derbyn mewnbwn rheolaidd gan y gyfundrefn rheoli perfformiad diweddaraf 9

Adroddiad cryno

Crynodeb

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Cynhaliwyd yr arolwg hwn er mwyn sefydlu a oes gan Gyngor Gwynedd (y Cyngor) drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer craffu drwy'r pwyllgorau cyhoeddus. Amcan yr arolwg oedd rhoi sicrwydd bod y trefniadau ar gyfer craffu cyhoeddus yn y pwyllgor mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol ynghyd â helpu i ymgynghori gwaith craffu effeithiol gan aelodau etholedig o gychwyn y cylch etholiadol cyfredol hwn. Roedd y gwaith hefyd yn olrhain cynnydd y Cyngor ers adolygiad a wnaed o drefniadau craffu holl awdurdodau lleol Cymru yn ystod 2017-2018[1]; cyhoeddwyd y canfyddiadau cenedlaethol, sef *Chwe Thema*, yn 2019[2].

2 Drwy gyfuniad o adolygu dogfennau mewnol a chyhoeddus, arsylwi pwyllgorau, cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws, fe geisiom dystiolaeth oedd yn ateb yr is-gwestiynau a ganlyn, yn ymwneud ag amgylchedd, ymarfer ac effaith craffu:

- A yw'r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol i alluogi craffu i weithredu'n effeithiol?
- A yw gweithrediad y swyddogaeth graffu wedi'i gynllunio'n dda, yn effeithlon, yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau?
- A yw gweithgarwch trosolwg a chraffu yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau?

3 Ymgymerwyd â'r adolygiad yn ystod mis Chwefror i Ebrill 2023.

Yr hyn y gwnaethom ei ddarganfod

4 Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer craffu drwy'r pwyllgorau cyhoeddus?

5 Canfuom bod y Cyngor wedi adolygu a chyflwyno newidiadau i drefniadau trosolwg a chraffu, a bod statws uwch i graffu o fewn y broses ddemocrataidd. Er hynny, mae cyfleoedd i gryfhau cyfraniad, statws a thraweffaith craffu ymhellach. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar y cyfan i alluogi craffu i weithredu'n effeithiol ond mae cyfleoedd i gryfhau hyfforddiant sydd yn arfogi aelodau i ddwyn y Cabinet i gyfrif.

[1]Cyhoeddiad Archwilio Cymru (2018): Cyngor Gwynedd – Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y dyfodol?

[2]Cyhoeddiad Archwilio Cymru (2019): Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol'

- mae’r Cyngor wedi datblygu meini prawf i lunio rhaglen flynyddol eitemau craffu, ond mae cyfle i gryfhau’r aliniad gyda rhaglen waith y Cabinet a Chynllun y Cyngor.
- er bod enghreifftiau lle mae mewnbwn craffu wedi cyfrannu at benderfyniadau’r Cabinet, nid oes trefn ffurfiol ar gyfer olrhain effaith craffu. Nid yw’r pwyllgorau craffu cyhoeddus yn derbyn mewnbwn rheolaidd gan y gyfundrefn rheoli perfformiad diweddaraf.

Argymhellion

Arddangosyn 1: argymhellion

Mae’r tabl isod yn nodi’r argymhellion yr ydym wedi’u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhellion
Llunio rhaglen craffu **A1 –** Dylai blaenraglen y Cabinet a Chynllun y Cyngor gael rhagor o ddylanwad ar flaenraglen y pwyllgorau craffu cyhoeddus fel bod allbwn craffu yn bwydo i mewn i benderfyniadau a gynllunnir gan y Cabinet.
Amlygu gwybodaeth perfformiad **A2 –** Dylid rhoi amlygrwydd uwch i wybodaeth perfformiad o fewn y pwyllgorau craffu cyhoeddus er mwyn herio’r cynnydd a wneir.
Hyfforddiant **A3 –** Dylid defnyddio darparwyr priodol boed yn fewnol neu yn allanol i gyflenwi hyfforddiant mewn meysydd arbenigol fel sgiliau cwestiynu, materion ariannol a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, er mwyn cynyddu hyder aelodau i herio yn effeithiol.
Cryfhau ystyriaeth ddeddfwriaethol **A4 –** Dylid adolygu prosesau craffu i sicrhau bod pwyslais priodol ar ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hwy.

Argymhellion

Ymchwiliadau craffu

A5 - Dylid ystyried cynnal nifer uwch o ymchwiliadau gan wahodd nifer gyfyngedig o aelodau i ymuno'r grŵp tasg a gorffen o blith pob pwyllgor craffu neu'r holl aelodau, fel bod y sawl sydd â diddordeb yn y maes yn cael cyfle i gymryd rhan a chynnal brwdfrydedd. Bydd hyn yn gyfrwng i ymgysylltu efo'r cyhoedd yn ogystal.

Olrhain effaith craffu

A6 - Dylid cryfhau'r broses o adrodd ar benderfyniadau pwyllgorau craffu a mabwysiadu trefn olrhain ffurfiol, er mwyn cael y gwerth am arian gorau ac amlygu'n gyhoeddus cyfraniad y gyfundrefn craffu i drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Mae’r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar y cyfan i alluogi craffu i weithredu'n effeithiol ond mae cyfleoedd i gryfhau hyfforddiant sydd yn arfogi aelodau i ddwyn y Cabinet i gyfrif

6 Ceir enghraifft o bwyllgorau yn craffu materion a aiff gerbron y Cabinet ac yn cyflwyno sylwadau am welliannau neu ystyriaethau pellach. Er hyn, canran fechan o eitemau’r Cabinet sydd wedi eu blaengraffu. Mae rhaglen waith craffu hefyd wedi ystyried naw o eitemau yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella Cynllun y Cyngor 2018-23, ond nid yw’n hysbys sut adroddir prif ganfyddiadau ac argymhellion y craffu hwnnw i’r Cabinet.

7 Mae rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ‘craidd’ a dewisol wedi’i lunio ar gyfer aelodau yn gyffredinol gyda chyfle iddynt ddylanwadu ar yr arlwy drwy gyflwyno adborth ffurfiol i’r sesiynau a drefnir yn ganolog. Darperir hyfforddiant penodol i graffu gan y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith.

8 Mae aelodau wedi derbyn hyfforddiant ar hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, er hynny maent yn cydnabod nad ydynt wedi’u harfogi ar gyfer craffu cydymffurfiaeth y cynlluniau a darpar benderfyniadau a gyflwynir iddynt â’r Pum Ffordd o Weithio. Yn yr un modd, nid oes trefniadau aeddfed ar gyfer craffu cydymffurfiaeth gyda Deddf Cydraddoldeb 2010 nac yn cael mynediad at ganlyniadau asesiadau effaith cydraddoldeb.

9 Byddai aelodau pwyllgorau craffu yn elwa o dderbyn rhagor o hyfforddiant yn ymwneud yn benodol â chraffu. Er bod darparwr allanol wedi’i adnabod ar gyfer cynnal sesiwn ar holi cwestiynau craffu, nid oes sesiynau wedi eu cynnal yn ddiweddar ac mae cyfle i wneud defnydd helaethach o ddarparwyr allanol gan gynnwys cyrff fel CIPFA a Chomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol.

10 Mae aelodau o’r farn mai’r un cnewyllyn o unigolion sydd yn cytuno i wasanaethu ar ymchwiliadau a grwpiau tasg a gorffen, a bod yr ymroddiad yma yn feichus o ran amser. Mae’r Centre for Public Scrutiny yn nodi y caiff aelodau gweithgor neu grŵp tasg a gorffen eu cynnull o blith unrhyw bwyllgor neu heb fod yn aelod craffu, cyn belled nad ydynt yn aelod o’r Cabinet.[3] Pan nad oes digon o aelodau o un pwyllgor craffu ar gael, maent eisoes yn estyn gwahoddiad i aelodau etholedig yn gyffredinol ac mae cyfle i ystyried estyn y gwahoddiad i bawb o’r cychwyn gyda’r potensial i gynnwys aelodau sydd â gwir ddiddordeb yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad. Mae’r trefniadau cyfredol ond yn estyn gwahoddiad i grŵp ehangach pan mae ffurfio grŵp wedi methu, ac yn cwtogi cyfle i ddenu mewnbwn gan drawstoriad ehangach o aelodau.

11 Mae swyddogaeth craffu yn cael ei werthfawrogi yn y Cyngor. Er hynny mynegwyd rhwystredigaeth ar yr achlysuron pan oedd eitemau i bwyllgor yn llithro ar fyr rybudd, oedd yn peri i rai cwestiynu os oedd statws priodol i graffu.

[3]Cyhoeddiad Local Government Association (2017): *A councillor's workbook on scrutiny* (local.gov.uk)

12 Mae’r Cyngor wedi myfyrio ar ddiben swyddogaeth craffu yng nghyd-destun yr adnoddau oedd ar gael ar ffurf arolwg yn 2019, yn unol ag argymhelliad gan Archwilio Cymru. Ymddengys bod yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi craffu wedi cynyddu ers arolwg 2019, ond mae yn llai na’r cyfnod cyn 2017.

13 Mae Aelodau’r Cabinet yn cydnabod bod cyfraniadau craffu yn gwella penderfyniadau, ond mae ambell un o’r farn nad ydynt yn cael eu herio’n ddigonol. Mynegodd rhai aelodau y byddai cynyddu’r gefnogaeth sydd ar gael i graffu yn arfogi’r aelodau i fod yn fwy effeithiol.

Mae’r Cyngor wedi datblygu meini prawf i lunio rhaglen flynyddol eitemau craffu, ond mae cyfle i gryfhau’r aliniad gyda rhaglen waith y Cabinet a Chynllun y Cyngor

14 Mae proses trylwyr ar gyfer dewis a dethol eitemau i’w cynnwys gan gynnwys meini prawf rhesymol a chymesur ond mae cynllunio ymlaen wedi’i gyfyngu i 12 mis yn hytrach na rhaglen dreigl gyhoeddus. Mae aelodau craffu wedi cyfrannu (gerfydd y Fforwm Craffu) at lunio’r fethodoleg i ddethol eitemau i’r rhaglen waith a strwythur y pwyllgorau. At ei gilydd mae hyn wedi lleihau’r tebygrwydd y bydd eitem ‘er gwybodaeth’.

15 Fodd bynnag, llunnir blaenraglen y Cabinet chwe mis o flaen llaw ac felly mae risg bod ail hanner y flwyddyn o rhaglen waith craffu heb alinio cystal gyda blaenraglen y Cabinet. Roedd swyddogion yn cydnabod y byddai Cynllun y Cyngor 2023-28 yn darparu nifer o eitemau potensial i’w craffu dros y cyfnod nesaf, gyda’r gallu i siapio blaenraglen hir dymor.

16 Mae swyddogion ac aelodau o’r farn bod gweithgareddau craffu yng Nghyngor Gwynedd yn canolbwyntio ar graffu cyn gwneud penderfyniad sydd yn cyfoethogi datblygiad polisïau, cynlluniau a strategaethau. Er hynny, canran fechan o eitemau’r Cabinet sydd wedi bod gerbron y pwyllgorau craffu o flaen llaw, a lleiafrif o eitemau craffu sydd yn bwydo negeseuon i benderfyniadau’r Cabinet.

17 Nid oes enghreifftiau amlwg o ymgysylltu â’r gymuned o fewn rhaglen waith ddiweddaraf y pwyllgorau craffu. Roedd ymchwiliadau craffu yn rhoi pwyslais ar ymgysylltu â’r gymuned, ond prin y maent wedi eu cynnal yn ddiweddar. Yn dilyn cyfnod o gynnal nifer cyfartalog o dri y flwyddyn hyd at ac yn cynnwys 2017 ac yna tri yn 2019, mae’r Cyngor wedi cychwyn un ymchwiliad yn 2023. Nodwyd prinder swyddogion fel un rheswm am y gostyngiad.

18 Mae tudalen wybodaeth pwyllgorau craffu ar safle we’r Cyngor yn egluro bod modd i’r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd ac i gynnig meysydd i fod yn destun ymchwiliad craffu (cynigir cymorth dros y ffôn i gwblhau’r ffurflen) ac yn darparu cyfeiriad e-bost ar gyfer cyflwyno sylwadau yn gyffredinol. Nid yw hun ynddo ei hun yn debygol o ddenu fawr ymateb.

19 Mae Cadeiryddion yn ystyried amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys adroddiadau rheoleiddwyr. Nid yw adroddiadau holl rheoleiddwyr yn cael eu craffu yn ffurfiol mewn pwyllgor.

20 Mae’r Cyngor wedi llunio Llawlyfr Craffu sy’n cynnwys elfennau defnyddiol e.e., trafod sut mae blaenoriaethau corfforaethol yn cael eu bodloni. Byddai datblygu ymhellach a chynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch adolygu a datblygu polisi a chraffu gwerth am arian yn galluogi aelodau wneud y defnydd gorau ohono.

21 Mae’r nifer presennol o eitemau ar yr agenda (dwy neu dair prif eitem) yn caniatáu amser i roi sylw priodol iddynt. Mae’r nifer yma yn annigonol yn nhyb rhai aelodau, tra bo eraill yn dymuno rhagor o amser i graffu eitemau.

22 Mae pwyllgorau craffu yn elwa o sgiliau cadeirio da. Mae achlysuron pan mae aelodau yn colli ffocws a gwneud sylwadau am eu ward neu holi swyddogion am faterion sy’n ymylol i’r eitem dan sylw, sydd yn awgrymu bod cyfle i hogi eu ffocws yn y pwyllgor.

23 Mae cadeiryddion ac aelodau craffu ar y cyfan yn ymwybodol o’r pwerau’r pwyllgorau i ‘alw i mewn’ penderfyniad a wneir gan y Cabinet ac mae swyddogion ar gael i gadarnhau a yw’r camau cyfansoddiadol gofynnol wedi’u bodloni. Nid oes enghreifftiau o hyn yn digwydd yn ddiweddar.

24 Mae’r Cyngor eisoes wedi adnabod risg o gynnwys materion corfforaethol dan ofal y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ers i gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newid fis Gorffennaf 2022. Mae asesu a yw’r pwyllgor yn ymdopi â’r cynnydd wedi nodi fel pwynt gweithredu ar gyfer tymor yr hydref 2023.

Er bod enghreifftiau lle mae mewnbwn craffu wedi cyfrannu at benderfyniadau’r Cabinet, nid oes trefn ffurfiol ar gyfer olrhain effaith craffu. Nid yw’r pwyllgorau craffu cyhoeddus yn derbyn mewnbwn rheolaidd gan y gyfundrefn rheoli perfformiad diweddaraf

25 Mae’r Cyngor yn gefnogol o’r broses craffu, ac mae enghreifftiau lle mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth. Mae rhai o’r materion ystyrir gan y pwyllgor craffu wedi cael eu hadrodd i’r Cabinet, ond mae’r niferoedd yma yn y lleiafrif. Nid yw’n bosib dilyn y llinyn aur sydd yn dangos yr effaith mae craffu wedi ei gael ar gyfer mwyafrif o eitemau’r pwyllgorau craffu.

26 Mae’r Cyngor wedi adnabod yn Hunan Asesiad 2021-22[4] bod lle i wella rôl craffu yn y gwaith cynllunio corfforaethol gan sicrhau bod cyswllt rhwng y rhaglen craffu a gwireddu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a hefyd dwyn y Cabinet i gyfrif ynghylch perfformiad. Cydnabuwyd y dylai’r aelodau craffu gael mynediad at y cofrestrau risg yn ogystal â mesuryddion perfformiad ehangach.

[4] Hunan-Asesiad-CG-202122.pdf (llyw.cymru)

27 Mae cynrychiolwyr pwyllgorau craffu yn cael eu gwahodd i arsylwi dau gyfarfod herio perfformiad gwasanaethau y flwyddyn. Nid yw materion yn tueddu i gael eu dyrchafu gan cynrychiolwyr craffu yn dilyn cyfarfodydd herio perfformiad mewnol. O ganlyniad, mae mewnbwn cyfyngedig gan y gyfundrefn craffu yn colli cyfle i ddylanwadu ar berfformiad gwael parhaus. Ymhellach, nid yw'r Cyngor yn llunio un adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o berfformiad ar draws holl wasanaethau, a fyddai caniatáu i'r pwyllgorau craffu, ac unrhyw rhanddeiliaid eraill, ystyried holl wasanaethau mewn un ddogfen.

28 Mae enghreifftiau ble dyfynnir sylwadau pwyllgorau craffu mewn cyfarfodydd Cabinet a bod cynigion am welliannau wedi'u hymgorffori cyn gwneud y penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, nid yw'n gwbl hysbys i bawb beth yw'r union drefn neu fecanwaith ar gyfer dyrchafu sylwadau i Gabinet. Er enghraifft, mewn achlysuron lle byddai cyflwyniad llafar yn uniongyrchol gan y Cadeirydd wedi bod yn briodol, y deilydd portffolio sydd i weld yn cyfleu'r negeseuon ar ran y pwyllgor. Mae rhai cynghorau eraill yn gwahodd cynrychiolydd o'r pwyllgorau craffu i gyflwyno eu sylwadau ar lafar, sydd yn amlygu'r llinellau atebolrwydd a rhoi llwyfan i waith y pwyllgorau craffu fel haen annibynnol.

29 Mae eitem sefydlog, sef rhif 4 ar raglen y Cabinet ar gyfer 'Materion yn codi o drosolwg a chraffu'. Nodir mai ond unwaith mewn pedair blynedd cyflwynwyd mater oddi tani. Mae sylwadau gan bwyllgorau craffu yn cael eu cynnwys gyda'r eitem briodol ar yr agenda, ond mae diffyg defnydd o eitem safonol 4 yn awgrymu bod cyfle i ail ystyried os gwneir y defnydd gorau o'r dulliau adrodd rhwng craffu a'r Cabinet.

30 Mae'r Cyngor yn cofnodi casgliadau'r pwyllgorau craffu cyhoeddus, ond nid ydynt mewn ffurf argymhellion clir, a nid oes ymateb clir a cyhoeddus gan y Cabinet i'r mwyafrif o ganfyddiadau. Nid yw'n bosib olrhain a fu gweithredu pellach, yn enwedig os nad ydynt yn eitemau Cabinet. Nid yw rhanddeiliaid felly yn gweld a oes gweithredu ar yr argymhellion a sylwadau gan y pwyllgorau craffu.

31 Mae'r dewis o bynciau craffu yn tueddu i roi digon o bwyslais ar agweddau ble gellir gwneud gwahaniaeth, sydd yn cynnwys craffu gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill. Caiff swyddogion ar ran cyrff eraill, megis y Gwasanaeth Ambiwlans, eu gwahodd i roi cyflwyniad. Disgrifir gweithgaredd o'r fath fel cyfle i'r aelodau drafod gyda chyrff eraill y prif bethau sy'n effeithio ar fywydau bob dydd eu hetholwyr, ond nid yw trefniadau atebolrwydd i'r pwyllgor craffu wedi ffurfioli mewn cytundeb o gyd-ddealltwriaeth neu cyffelyb.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd Cf10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Ymateb sefydliadol

Enw 'r adroddiad: Adolygiad o Effeithiolrwydd Craffu – Cyngor Gwynedd

Dyddiad cwblhau: **Hydref 2023**

Cyfeirnod y ddogfen: 3537A2023

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	**Llunio rhaglen craffu** **A1 –** Dylai blaenraglen y Cabinet a Chynllun y Cyngor gael rhagor o ddylanwad ar flaenraglen y pwyllgorau craffu cyhoeddus fel bod allbwn craffu yn bwydo i mewn i benderfyniadau a gynllunnir gan y Cabinet.	Mae gweithdai blynyddol y pwyllgorau Craffu yn rhoi sylw manwl i Gynllun y Cyngor, gan flaenoriaethu eitemau o'r Cynllun fel sy'n amserol I'w craffu. Rydym eisoes wedi symud ymlaen gyda threfniadau i gryfhau blaen raglen y Cabinet er mwyn gwella'r gyd-berthynas rhwng blaen raglen Cabinet a Chraffu. Bydd templed newydd ar gyfer adroddiadau Cabinet yn cynnwys cyfeiriad penodol ar faterion a godwyd gan y pwyllgorau craffu yn weithredol o Fedi 2023 ymlaen. Bydd cerrig milltir blynyddol sydd I'w cyflawni ar gyfer Cynllun y Cyngor yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau a Swyddogion Craffu perthnasol.	**Blynyddol** **Parhaus** **Cwblhawyd – Medi 2023** **Tymor yr Hydref 2023**	**Swyddogion Craffu** **Cyfarwyddwr Corfforaethol** **Cyfarwyddwr Corfforaethol** **Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor**
A2	**Amlygu gwybodaeth perfformiad** **A2 –** Dylid rhoi amlygrwydd uwch i wybodaeth perfformiad o fewn y pwyllgorau craffu cyhoeddus er mwyn herio'r cynnydd a wneir.	Gwaith eisoes yn symud yn ei flaen gan fod y cyfarwyddwyr corfforaethol yn mynychu'r cyfarfodydd herio perfformiad ar y cyd gyda'r Aelodau Craffu, gyda'r cyfarwyddwyr i gynorthwyo'r craffwyr i adnabod materion sydd i'w craffu ymhellach. Rhoddir ystyriaeth pellach i adrodd yn gyhoeddus wrth i'r trefniadau herio perfformiad gael eu datblygu a'u haddasu.	**Parhaus** **I'w gadarnhau**	**Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol** **Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor**

A3	**Hyfforddiant** **A3 –** Dylid defnyddio darparwyr priodol boed yn fewnol neu yn allanol i gyflenwi hyfforddiant mewn meysydd arbenigol fel sgiliau cwestiynu, materion ariannol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn cynyddu hyder aelodau i herio yn effeithiol.	Mae rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant yn cael ei darparu ar gyfer Cynghorwyr, gyda'r ddwy flynedd gyntaf yn dilyn etholiad bob amser yn drwm. Defnyddir darparwyr proffesiynol i gyflenwi hyfforddiant, boed yn swyddogion mewnol neu allanol. Bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu yn unol a'r angen/gofyn gan ddewis y darparwyr mwyaf addas, boed yn fewnol neu'n allanol.	**Parhaus**	**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**
A4	**Cryfhau ystyriaeth ddeddfwriaethol** **A4 –** Dylid adolygu prosesau craffu i sicrhau bod pwyslais priodol ar ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hwy.	Byddwn yn parhau i atgoffa'r Cynghorwyr o'r gofynion yn yr hyfforddiant blynyddol. Gwaith eisoes yn symud yn ei flaen gan ein bod eisoes yn cynnwys taflen i atgoffa'r Cynghorwyr o'r ystyriaethau perthnasol wrth rannu rhaglen y cyfarfod gyda hwy.	**Parhaus** **Cwblhawyd – Medi 2023**	**Swyddogion Craffu** **Swyddogion Craffu**
A5	**Ymchwiliadau craffu** **A5 -** Dylid ystyried cynnal nifer uwch o ymchwiliadau gan wahodd nifer gyfyngedig o aelodau i ymuno'r grŵp tasg a gorffen o blith pob pwyllgor craffu neu'r holl aelodau, fel bod y sawl sydd â diddordeb yn y maes yn cael cyfle i gymryd rhan a chynnal brwdfrydedd. Bydd hyn yn gyfrwng i ymgysylltu efo'r cyhoedd yn ogystal.	Bu lleihad yn yr ymchwiliadau craffu a gynhaliwyd yn sgil cyfyngiadau covid-19. Blaenoriaethwyd ail gychwyn y gwaith craffu ffurfiol yn y pwyllgorau. Penderfynwyd ail gychwyn ar yr ymchwiliadau craffu ar ddechrau tymor y Cyngor newydd. Mae trefniadau cyfredol ar gyfer ymchwiliadau yn golygu ein bod yn ceisio adnabod aelodau o blith y pwyllgorau ar gyfer ymchwiliadau, gan ymestyn y gwahoddiad i'r holl aelodau os nad	**Dim gweithrediad**	

		oes diddordeb digonol. Mae ein ymchwiliadau eisoes yn gyfrwng i gryfhau'r ymgysylltu gyda'r cyhoedd.		
A6	**Olrhain effaith craffu** **A6** - Dylid cryfhau'r broses o adrodd ar benderfyniadau pwyllgorau craffu a mabwysiadu trefn olrhain ffurfiol, er mwyn cael y gwerth am arian gorau ac amlygu'n gyhoeddus cyfraniad y gyfundrefn craffu i drefniadau llywodraethu'r Cyngor.	Mae nifer o wahanol ffactorau yn dod ynghyd er mwyn gwella ein trefniadau ar gyfer olrhain effaith craffu. • Byddwn yn trefnu hyfforddiant i'r Cadeiryddion craffu ar sut i lunio argymhellion clir ac/neu sut i gyfeirio mater i'r Cabinet • Bellach mae cyfeiriad penodol mewn adroddiadau Cabinet at yr ystyriaethau godwyd gan bwyllgorau craffu. • Mae dyletswydd ar Aelodau'r Fforwm Craffu i fod yn hunan arfarnu eu perfformiad, gan gynnwys asesu effaith craffu. • Byddwn yn ystyried rôl Cadeiryddion Craffu wrth gyflwyno sylwadau/ argymhellion i gyfarfodydd y Cabinet ar faterion a flaen-graffwyd.	**Hydref 2023** **Cwblhawyd – Medi 2023** **Parhaus** **Wrth adolygu ein trefniadau craffu cyfredol gan ddod i gasgliad cyn Mai 2024**	**Swyddogion Craffu a swyddogion cyfreithiol** **Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

PWYLLGOR	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD	**12 HYDREF 2023**
TEITL	**CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 MEDI 2023**
AWDUR	**LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO**
GWEITHREDIAD	**DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL**

---

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 hyd 30 Medi 2023.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2023:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol (2023/24)	8

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2023, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2022-2023	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 1
Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2022-2023	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 2
Datganiad Cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor Corfforedig 2020-2021	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 3
Cronfa'r Degwm	Economi a Chymuned	Adfywio Cymunedol	Uchel	Atodiad 4
Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	Economi a Chymuned	Amgueddfeydd ac Orielau	Uchel	Atodiad 5
Grant Cymorth Tai	Tai ac Eiddo	Digartrefedd a Tai Cefnogol	Digonol	Atodiad 6
Cyflogau Athrawon	Cyllid	Cyflogau a Phensiynau	Digonol	Atodiad 7
Dilyniant Diogelwch Tacsi	Amgylchedd	Trwyddedu	Digonol	Atodiad 8

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	**UCHEL**	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 30 Medi 2023:

- Cronfeydd Answyddogol Ysgolion (*Addysg*)
- Rheolaeth Categori Corfforaethol *(Corfforaethol)*
- Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio *(Corfforaethol)*
- Rheolaethau Allweddol Budd-Daliadau *(Cyllid)*
- Cartref Plas Maesincla *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Cartref Plas Ogwen *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Cartref Cefn Rodyn (*Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Dilyniant - Cartrefi Preswyl *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Gwastraff Gardd *(Amgylchedd)*
- Gwastraff Swmpus *(Amgylchedd)*
- Dilyniant – Trefniadau Cyfathrebu Cynllunio (*Amgylchedd*)
- Clefyd Gwywiad Yr Onnen (Ash Dieback) (*Priffyrdd, Peirianneg a YGC*)
- Incwm Masnachol *(Priffyrdd, Peirianneg a YGC)*
- Unedau Diwydiannol (*Tai ac Eiddo*)

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 hyd at 30 Medi 2023, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

DATGANIAD CYFRIFYDDU HARBYRAU

1. Cefndir

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn 2022/23, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	**Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.**

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu derbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad a sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth briodol.

4.4 Cefnogir y ffigwr asedau sefydlog ar y datganiad cyfrifyddu gyda cofrestr asedau.

Atodiad 2

DATGANIAD CYFRIFYDDU PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

1. Cefndir

1.1 Roedd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gyd-bwyllgor a sefydlwyd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Gan mai Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg i'r cyd-bwyllgor hwn, Cyngor Gwynedd sydd felly â'r cyfrifoldeb am gwblhau'r datganiad ariannol. Daeth y Cyd-Bwyllgor i ben ar y 31/03/23.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	**Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.**

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd bod trywydd archwilio priodol o'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu derbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad. Sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth priodol.

Atodiad 3

DATGANIAD CYFRIFYDDU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

1. Cefndir

1.1 Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff corfforaethol rhanbarthol sydd â phwerau a dyletswyddau sy'n weddol debyg i bwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol. Mae ganddynt strwythurau llywodraethu a gweinyddol tebyg hefyd, ond mae ganddynt lefel o ddisgresiwn o ran eu trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol. Mae'r Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am waith cynllunio datblygu strategol, gwaith cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol a hyrwyddo llesiant economaidd y rhanbarth.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor Corfforedig rhanbarth y gogledd ar gyfer y flwyddyn 2022/23, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	**Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.**

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor Corfforedig rhanbarth y Gogledd ar gyfer y flwyddyn 2022/23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

Atodiad 4

CRONFA'R DEGWM

1. Cefndir

Mae Cronfa'r Degwm yn deillio o Ddeddf Eglwysi Cymru 1914. Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r gronfa ac yn dosbarthu'r llog yn flynyddol ar ffurf grantiau i elusennau cofrestredig yng Ngwynedd er mwyn hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau. Mae modd i sefydliadau megis Eisteddfodau lleol, gweithgareddau celfyddydol, mudiadau addysg, hamdden a chwaraeon, cadwriaethol ac elusennau sy'n cefnogi pobl wael neu bobl anabl geisio am y grant. Mae'n bosib gwneud cais am unrhyw swm, ond bydd grantiau unigol yn dueddol i fod rhwng £100 a £3,000.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal gwiriad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm am y flwyddyn ariannol 2022/23, yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	**Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.**

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau, mae'n rhaid cynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon os yw incwm blynyddol y gronfa dros £25,000. Buddsoddwyd arian y gronfa er mwyn denu llog, ac felly rhagorwyd y trothwy incwm ym mlwyddyn ariannol 2022/23.

4.2 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau.

Atodiad 5

CYFRIFON AMGUEDDFA LLOYD GEORGE

1. Cefndir

Mae Amgueddfa Lloyd George a cartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog y DU. Gweinyddir yr amgueddfa, sy'n elusen gofrestredig, gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000 drwy gyfraniad Cyngor Gwynedd, rhaid cyflwyno cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau am 2022-23, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon yr Amgueddfa am y flwyddyn ariannol 2022/23, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfriflyfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	**Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.**

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Darganfuwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2022/23 yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

GRANT CYMORTH TAI

1. Cefndir

1.1 Rhaglen grant ymyrraeth cynnar yw'r Grant Cymorth Tai, a sefydlwyd yn 2019 i helpu atal pobl rhag mynd yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu helpu unigolion a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety, a'i gadw. Mae'n helpu pobl sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â phroblemau megis dyledion, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Dyrannwyd hyd at £6.8m o grant i Wynedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2022/23.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif archwilio Grant Cymorth Tai ar gyfer 2022/23, drwy wirio'r costau a hawliwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	**Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.**

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r risgiau archwilio fel a ganlyn:

Risk Level	Number
VERY HIGH	0
HIGH	0
MEDIUM	1
LOW	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb ffigyrau ariannol ar dystysgrif archwilio y Grant Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio i'r ffigyrau.

5.2 Yn sgil yr amserlen heriol i gyflwyno datganiad o wariant alldro terfynol y grant i Lywodraeth Cymru, buasai'n fuddiol i brosesu trosglwyddiadau mewnol am wasanaethau darparir gan y Cyngor yn gynt, neu yn gyfnodol drwy'r flwyddyn. Bydd hyn yn gymorth i fonitro ac adrodd ar wariant yn ystod, ac ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, caiff symiau sylweddol eu trosglwyddo ar ddiwedd y flwyddyn, a hynny ar ôl adrodd ar y gwariant alldro terfynol i Lywodraeth Cymru. Ar adegau, mae'r hyn adroddwyd ar y datganiad o wariant alldro terfynol yn wahanol i'r hyn trosglwyddwyd yn y cyfriflyfr ariannol.

5.3 Mae'r tystysgrif archwilio yn gofyn i'r Archwiliwr Mewnol gadarnhau bod y gwariant yn briodol, ac yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y grant, yn unol â gofynion y llythyr cynnig. Gan fod y grant yn ariannu taliadau i amryw o ddarparwyr mewnol ac allanol, mae'r Gwasanaeth wedi ail-ddechrau cynnal ymweliadau monitro er mwyn sicrhau priodoldeb y darpariaeth a'r taliadau a wneir, yn dilyn cyfnod o brinder staffio.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sefydlu trefn o brosesu trosglwyddiadau mewnol am wasanaethau darparir gan y Cyngor yn gyfnodol yn ystod y flwyddyn, boed yn fisol neu chwarterol.**

CYFLOGAU ATHRAWON

1. Cefndir

1.1 Mae oddeutu 1,420 o athrawon ar gyflogres y Cyngor. Yn y flwyddyn ariannol 2022/23, talwyd dros oddeutu £49 miliwn o gostau cyflog (heb 'on-costs') i athrawon yn unig.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i weinyddu cyflogau athrawon, gan sicrhau bod taliadau cywir yn cael eu gweithredu yn amserol, gan gynnwys cyfraniadau pensiynau a threth. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o gyflogau athrawon ynghyd â athrawon cyflenwi gan gynnwys rhai sydd newydd dechrau, unrhyw addasiadau a chyflogau athrawon sydd wedi gadael er mwyn sicrhau cyflogau cywir ac amserol, yn ogystal â phrydlondeb cyfarwyddiadau gan yr ysgolion i newidiadau sy'n effeithio cyflogau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	**Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.**

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r risgiau archwilio fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 O'r sampl o gyflogau athrawon a archwiliwyd, darganfuwyd bod trefniadau ffurfiol mewn lle ar gyfer sefydlu, addasu a therfynu cyflogau athrawon.

5.2 O'r sampl o staff dros dro a ddetholwyd h.y. staff sydd wedi eu penodi ar 'gyfnod penodol', gwelwyd bod 28% angen sylw, gyda 14% wedi mynd dros y cyfnod dros dro. Eglurodd yr Arweinydd Tîm Uned Cyflogau a Chontractau Ysgolion bod y gwasanaeth yn derbyn adroddiad misol i wirio cytundebau sydd wedi mynd dros y cyfnod dros dro. Derbyniwyd yr adroddiad mis Gorffennaf 2022 a gwelwyd bod 713 ar yr adroddiad gyda

288 dros 2 flynedd neu fwy ar gytundeb dros dro. Eglurwyd bod gwiriadau yn cael eu cynnal gyda penaethiaid ysgolion a caiff y cytundebau eu hadolygu/diweddaru gyda eglurhad y penaethiaid. Er hynny, golygai bod rhai staff gyda cytundeb dros dro hir dymor h.y. dros 2 flynedd gyda hawliau ychwanegol ond o bosib yn anymwybodol ac yn colli allan ar hawliau.

5.3 Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu data cywir a chyflawn am aelodau cyfredol ynghyd a'r sawl sydd wedi gadael cyflogaeth ysgolion Cyngor Gwynedd, yn fisol i'r Gwasanaeth Pensiynau Athrawon (GPA). O Ebrill 2023 ymlaen, gofynnwyd y GPA i gynghorau gyflwyno data mewn ffurf newydd gan ddisodli'r drefn bresennol 'Monthly Data Collection' (MDC) a cyflwyno trefn Cysoni Cyfraniadau Misol 'Monthly Contributions Reconciliation' (MCR). Mae'r broses newydd yn cynnwys gwybodaeth am hyd y gwasanaeth, cyflogau a gwybodaeth am gyfraniadau i'r GPA yn hytrach na chasglu data ar ddadansoddiad o gyfraniadau misol a data aelodaeth, ac yn cysoni'r rhain i mewn i un. Derbyniwyd eglurhad gan y Rheolwr Cyflogau bod y broses newydd yn gymhleth oherwydd nid yw'r system Cyflogau yn gallu echdynnu'r data a ofynnir am heb adnoddau ychwanegol ar gyfer cyflwyno'r data a'u dilysu. Yn ogystal, nid yw'r Rheolwr yn fodlon creu newidiadau anwrthdroadwy i'r system ar hyn o bryd rhag i'r GPA gyflwyno cyfarwyddiadau newydd a gwahanol o ganlyniad i'r ffaith bod llawer o gynghorau yn parhau i gael problemau gyda'r proses newydd.

5.4 Gan fod y data bellach ar sail MCR, gofynnir i gynghorau weithredu unrhyw addasiadau newydd mewn cyflogau athrawon e.e. pan mae codiadau cyflog, bydd rhaid eu hôl dyddio ac ail gyfrifo a chyflwyno gwybodaeth am hyd y gwasanaeth, cyflogau a gwybodaeth am gyfraniadau eraill ar gyfer pob mis mae'r newid yn effeithio, a hynny i adlewyrchu fel petai'r taliad wedi digwydd ar yr amser cywir. Mynegodd y Rheolwr Cyflogau bod hyn angen adnodd ychwanegol ar gyfer gweithredu, yn enwedig os derbynnir llawer o geisiadau anrhagweledig gan yr ysgolion a'r angen i ôl ddyddio'r cyflogau o fis i fis. Petai Cyflogau mewn sefyllfa lle mae'r ysgolion yn cyflwyno gwybodaeth yn gyflawn ac yn amserol, yna nid oes unrhyw broblem gweithredu MCR, ond mae'r maint gwaith sydd yn gysylltiedig ag ail-gyfrifo cyfraniadau am fisoedd hanesyddol yn sylweddol ac yn gymhleth.

5.5 Adroddodd y Rheolwr Cyflogau (Awst 2023) bod y Cyngor yn parhau i gyflwyno gwybodaeth i GPA trwy ddefnyddio 'MDC' nes bydd yn derbyn gohebiaeth bellach ganddynt ynglŷn â newid i 'MCR'.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cyflwyno gwybodaeth drwy MCR i Wasanaethau Pensiynau Athrawon pan ddaw cyfarwyddiadau bellach sydd yn caniatau i'r gwasanaeth Cyflogau i'w wneud.**
- **Tynnu sylw penaethiaid (trwy gyfarfod neu ebost) at eu cyfrifoldebau ac adolygu wedyn pa mor effeithiol oedd hynny, ac os ydy'r sefyllfa wedi gwella, neu ddim.**

DILYNIANT DIOGELWCH TACSIS

1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Diogelwch Tacsis fel rhan o gynllun 2022/23, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer trwyddedu tacsis i sicrhau diogelwch defnyddwyr. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

2. Bwriad a Chwmpas y Dilyniant

2.1 Bwriad y dilyniant oedd sicrhau fod y gwasanaeth wedi ymdrechu i fynd i'r afael â'r ffaeleddau amlygwyd, ac wedi gweithredu ar y camau gweithredu ymrwymwyd iddynt er mwyn lliniaru'r risgiau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd y dilyniant yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau llwyddiannus ers yr archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod y dystiolaeth sy'n bresennol yn gywir a chyfredol, gyda thaliad wedi ei dderbyn ar bob achlysur.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad dilyniant fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	**Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.**

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r risgiau archwilio fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Darganfyddiadau

5.1 Allan o'r 3 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol ym mis Hydref 2022 (2 â sgôr risg 12 ac un yn 8), gwelwyd bod 2 (gyda sgôr risg o 12) wedi'u gweithredu ac adroddir y casgliadau isod. Mae 1 (gyda sgôr risg o 8) ddim yn weithredol nes Rhagfyr 2023. O ganlyniad, cyflwynir cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig o'r adroddiad dilyniant.

5.2 Adroddodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Amgylchedd) bod y Gwasanaeth wedi

darganfod eu bod wedi derbyn nifer o geisiadau trwyddedu a dogfennau/tystiolaeth i flwch e-bost personol swyddog, yn hytrach 'na flwch generig y gwasanaeth. Yn dilyn ymddiswyddiad y swyddog, nid oedd bosib mynd drwy'r e-byst ond llwyddwyd yn raddol i ddod o hyd i'r holl ceisiadau a gyflwynwyd drwy e-bost yn uniongyrchol i'r swyddog drwy ymgeiswyr am drwyddedau newydd ac/neu adnewyddu yn cysylltu gyda'r gwasanaeth i holi am ddiweddariad ar geisiadau. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gallu cywiro cofnodion fel yr oedd trwyddedau yn dod i fyny i'w hadnewyddu, yn ogystal â rhedeg adroddiadau er mwyn gwirio cofnodion prosesu trwyddedau'r swyddog ers 2020.

5.3 Ers archwiliad Hydref 2022, cadarnhawyd bod staff newydd wedi'u penodi ac wedi derbyn hyfforddiant dwys, ac wedi gweithio'n agos iawn gyda swyddog profiadol gyda chanllawiau prosesu newydd wedi'u creu ar gyfer swyddogion newydd i'r gwasanaeth. Mae'r hyfforddiant wedi canolbwyntio ar brosesu a chofnodi trwyddedau, gyda gwiriadau ar hap gan y Rheolwr yn dangos fod y cofnodion yn fwy cywir ac yn gyflawn. Mae cyfarwyddyd hefyd wedi ei rannu i ddefnyddio'r blwch e-byst generig ar bob achlysur.

5.4 O'r sampl a wiriwyd, gwelwyd bod y holl dystiolaeth yn ddilys ar yr adeg a chaniatawyd y drwydded. Cyfeiriwyd at sylw Swyddog Drwyddedu eithriadau oedd angen meddiannu tystiolaeth gyfredol oedd wedi dyddio yng nghanol cyfnod y drwydded. Eglurodd y Rheolwr 'mae dyddiad adnewyddiad yn aml yn disgyn yn 'due' yn ystod cyfnod gweithredol y drwydded'. Gyda'r system erbyn hyn yn galluogi i redeg adroddiadau i wirio trwyddedau lle mae dogfennau pwysig wedi dod i ben, mae'r gwasanaeth yn ceisio rhedeg adroddiadau rheolaidd i geisio goresgyn y broblem.

5.5 Cadarnhawyd o dan drefn 'notifiable occupation disclosure' mae'r gwasanaeth yn cael gwybod gan yr Heddlu os yw unigolyn yn cael ei ymchwilio am drosedd perthnasol. Eglurwyd nad yw'r gwasanaeth angen disgwyl am ddedfryd Llys cyn gweithredu i atal trwydded tacsi unigolyn sydd o dan ymchwiliad am droseddau perthnasol, ond gall atal yn syth ar sail y gall y person fod yn beryglus i ddiogelwch y cyhoedd.

6. <u>Camau Gweithredu</u>

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Rhedeg adroddiadau i wirio trwyddedau lle mae dogfennau pwysig wedi dod i ben.**
- **Rheolwr i wirio cofnodion ar hap yn reolaidd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.**
- **Parhau i lunio polisi newydd ynghyd â darparu'r hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau cysondeb yn y drefn prosesu trwyddedau yrru ar draws Gwynedd.**